Salm-weddi: Arglwydd, ein lloches mewn dyddiau blin, dygi ein heuogrwydd i gof. Y mae dy law fel pe bai'n drom arnom, y mae'n tafodau'n sych ac yr ydym yn cydnabod yn agored ein heuogrwydd. Cofleidia ni â'th drugaredd. Dysg ni i ymddiried ynot, a dwg ni yn y diwedd i lawenhau yn dy wŷdd byth bythoedd. **Amen.**

Y Testament Newydd: II Timotheus 2.8-13. Os buom farw gydag ef, byddwn fyw hefyd gydag ef

Cantigl: Cân y Rhai a Brynwyd

Efengyl: Ioan 11.17-27. Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd

*Gweddi.*

### **Adfent**

Yr Hen Destament: Daniel 12.1-3(5-9). Pob un yr ysgrifennwyd ei enw yn y llyfr

Salm: 27

Salm-weddi: O Dduw ein hamddiffynnwr, dyro inni oleuni gwirionedd a doethineb fel y gosodwn ein holl obaith yn ddiysgog arnat ti, a'th Fab, Iesu Grist. **Amen.**

Cantigl : Cân Manasse

Efengyl : Mathew 25.31-diwedd. Y farn olaf

*Gweddi.*

### **Marwolaeth Annisgwyl**

Apocryffa: Doethineb Solomon 4:8-11, 13-15. Nid hirhoedledd yw henaint

Salm: 6

Salm-weddi: O Arglwydd, pylodd ein llygaid gan ofid; gwyddost ein bod wedi diffygio gan ein cwynfan. A ninnau, yng ngwactod tywyll y nos yn cofio am ein marwolaeth, trugarha wrthym ac iachâ ni; maddau inni a dwg ymaith ein hofn trwy farwolaeth ac atgyfodiad Iesu dy Fab. **Amen.**

**Amen.**

Y Testament Newydd : II Corinthiaid 4.7-15. Dygwn yn ein corff farwolaeth Iesu

Cantigl : Nunc dimittis (Cân Simeon)

Efengyl : Luc 12.35-40. Dyfodiad Mab y Dyn

*Gweddi.*

### ***The Hope of Heaven***

Apocrypha: Wisdom 3.1-5, 9. The souls of the righteous are in the hand of God

Psalm: 25.1-9

Psalm Prayer: God of our salvation, in our sorrow we lift our hearts to you and put our faith in you. Have compassion on us, forgive us, and love us to eternity, as you guide and teach us in the way that lies ahead in Jesus Christ our Lord. **Amen.**

New Testament : Romans 8.18-25(26-30). The future glory

Revelation 21.22-end; 22.3b-5. The Lord God will be their light

Canticle: A Song of Faith

Gospel: John 14.1-6. In my Father's house are many rooms

*Prayer.*

### ***Easter***

Old Testament: Job 19.23-27. I know that my Redeemer lives

Psalm: 32

Psalm Prayer: Lord, our hiding place in times of trouble, you bring our guilt to mind. Your hand seems heavy, our tongues dry up and we openly confess our guilt. Embrace us with your mercy. Teach us to trust you, and bring us at the last to rejoice in your presence for ever and ever. **Amen.**

New Testament: II Timothy 2.8-13. If we have died with him, we shall also live with him

Canticle: A Song of the Redeemed

Gospel: John 11.17-27. I am the resurrection and the life

*Prayer.*

### ***Advent***

Old Testament: Daniel 12.1-3(5-9). Everyone whose name shall be found written in the book

Psalm: 27

Psalm Prayer: O God our defender, give us the light of truth and wisdom that all our hope may be fixed on you, and on your Son, Jesus the Christ. **Amen.**

Canticle : The Song of Manasseh

Gospel : Matthew 25.31-end. The final judgement

*Prayer.*

### ***An Unexpected Death***

Apocrypha: Wisdom 4:8-11, 13-15. Age is not length of time

Psalm: 6

Psalm Prayer: Our eyes, Lord, are wasted with grief; you know we are weary with groaning. As we remember our death in the dark emptiness of the night, have mercy on us and heal us; forgive us and take away our fear through the dying and rising of Jesus your Son. **Amen.**

New Testament : II Corinthians 4.7-15. We carry in our mortal bodies the death of Jesus

Canticle : Nunc dimittis (The Song of Simeon)

Gospel : Luke 12.35-40. The coming of the Son of Man

*Prayer.*

## **Plentyn**

Yr Hen Destament: II Samuel 12.16-23. Marw mab Dafydd

Salm: 38.9-diwedd

Salm-weddi: Arglwydd, trugarha wrth y sawl sy'n galaru ar hyd y dydd, sydd wedi eu llethu gan faich o ofid, eu nerth yn pallu, a'u cyfeillion a'u cymdogion wedi pellhau. Gwyddost am ein holl ocheneidio a dyheu: bydd yn agos atom a dysg ni i obeithio ynot ti; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Apocryffa: Doethineb Solomon: 4.8-11, 13-15. Nid hirhoedledd yw henaint

Cantigl: Cân o'r eiddo Sant Anselm

Efengyl: Luc 12.35-40. Dyfodiad Mab y Dyn

*Gweddi.*

## **DIWEDDGLO**

*Dywed y gweinidog y diwedd glo hwn neu ddiwedd glo addas arall:*

Yr Arglwydd Dduw hollalluog yw ein Tad: y mae'n ein caru ac yn gofalu'n dyner amdanom. Yr Arglwydd Iesu Grist yw ein Gwardedwr: fe'n prynodd a bydd yn ein hamddiffyn hyd y diwedd. Y mae'r Arglwydd, yr Ysbryd Glân, yn ein plith: bydd yn ein harwain yn ffordd sanctaidd Duw. I Dduw Hollalluog, Dad, Mab ac Ysbryd Glân, y byddo'r moliant a'r gogoniant yn awr a hyd byth.

**Amen.**

## **V. AR FORE'R ANGLADD**

*Bwriedir i'r gwasanaeth hwn fod yn gyfnod byr o gofio beth amser cyn mynd i'r Angladd. Gall cyfaill, aelod o'r teulu neu weinidog ei arwain.*

## **PARATOAD**

Wrth inni gychwyn ar ein taith heddiw, gweddiwn am bresenoldeb Crist, a aeth y ffordd hon o'n blaen. Arglwydd Iesu, dangosaist inni'r ffordd at y Tad:

**Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu, y mae dy air yn goleuo ein ffordd:

**Crist, trugarha.**

Arglwydd Iesu, ti yw'r bugail da sy'n ein harwain i fywyd tragwyddol:

**Arglwydd, trugarha.**

## **Y GAIR**

Galarnad 3.22-26, 31-33.

## **GWEDDI**

Dad nefol, fe'n gwnaethost nid i dywyllwch a marwolaeth, ond i fyw gyda thi am byth. Hebot nid oes gennym ddim i obeithio amdano; gyda thi, nid oes gennym ddim i'w ofni. Llefara wrthym yn awr eiriau dy fywyd tragwyddol. Cyfod ni i oleuni a thangnefedd dy bresenoldeb, a gosod ogoniant dy gariad o'n blaen; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**



### **A Child**

Old Testament: II Samuel 12.16-23. David's son dies

Psalm: 38.9-end

Psalm Prayer: Lord, have mercy on those who go about mourning all the day long, who feel numb and crushed and are filled with the pain of grief, whose strength has given up, and whose friends and neighbours are distant. You know all our sighing and longings : be near to us and teach us to fix our hope on you alone; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Apocrypha: Wisdom 4.8-11, 13-15. Age is not length of time

Canticle: A Song of St. Anselm

Gospel: Luke 12.35-40. The coming of the Son of Man

*Prayer.*

### **ENDING**

*The minister says this or another suitable ending:*

The Lord God almighty is our Father: he loves us and tenderly cares for us.

The Lord Jesus Christ is our Saviour: he has redeemed us and will defend us to the end.

The Lord, the Holy Spirit is among us: he will lead us in God's holy way.

To God almighty, Father, Son, and Holy Spirit: be praise and glory today and for ever.

**Amen.**

## **V. ON THE MORNING OF THE FUNERAL**

*This brief form of service is intended to provide a short time of recollection some time before going to the Funeral. It may be led by a friend, family member or the minister.*

### **PREPARATION**

As we set out on our journey today, we pray for the presence of Christ, who has gone this way before us. Lord Jesus, you have shown us the way to the Father:

**Lord, have mercy.**

Lord Jesus, your word is a light to our path:

**Christ, have mercy.**

Lord Jesus, you are the good shepherd, leading us into everlasting life:

**Lord, have mercy.**

### **THE WORD**

Lamentations 3.22-26, 31-33.

### **PRAYER**

Heavenly Father, you have not made us for darkness and death, but for life with you for ever. Without you we have nothing to hope for; with you we have nothing to fear. Speak to us now your words of eternal life. Lift us to the light and peace of your presence, and set the glory of your love before us; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

## VI. RHAGARWEINIAD BUGEILIOL I'R GWASANAETH ANGLADD

*Gellir defnyddio'r geiriau hyn neu eiriau eraill:*

Y mae cariad a gallu Duw yn estyn dros y cread oll. Y mae pob bywyd yn werthfawr i Dduw. Y mae Cristnogion bob amser wedi credu bod gobaith mewn angau fel sydd mewn bywyd, a bod bywyd newydd yng Nghrist y tu draw i farwolaeth. Dywedodd Iesu, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth".  
(*Ioan 11.25,26*).

Y mae gwir ymdeimlad o golled pan fydd farw un sy'n annwyl gennym. Fe fydd gennym oll ein profiadau ein hunain o'i fywyd a'i farwolaeth, a'n gwahanol atgofion a'n gwahanol deimladau ein hunain o gariad a galar a pharch. Dylai cydnabod hyn ar ddechrau'r gwasanaeth ein cynorthwyo i fynegi ein ffydd a'n teimladau wrth inni ganu'n iach, a'n cynorthwyo hefyd i gydnabod ein colled ac i fyfyrion ar ein marwoldeb ni ein hunain. Y mae ar y rhai sy'n galaru angen cefnogaeth a chysur. Y mae ein presenoldeb ni yma heddiw yn rhan o'r gefnogaeth gyson honno.

## VII. TESTUNAU ATODOL

### BRAWDDEGAU

Dengys Duw inni lwybr bywyd; yn ei bresenoldeb ef y mae digonedd o lawenydd, ac yn ei ddeheulaw fwyniant bythol.  
(*cf. Salm 16.10*).

Salm 46.1

O'r dyfnderau y gwaeddais arnat, O Arglwydd. Arglwydd, clyw fy llef; bydded dy glustiau'n agored i lef fy ngweddi.  
(*cf. Salm 130.1-2*).

Oherwydd gwn fod fy amddiffynnwr yn fyw, ac y saif o'm plaid yn y diwedd; ac wedi i'm croen ddifa fel hyn, eto o'm cnawd caf weld Duw. Fe'i gwelaf ef o'm plaid; ie, fy llygaid fy hun a'i gwêl, ac nid yw'n ddieithr.  
*Job 19.25-27*.

Pregethwr 5.15,16

Galarnad 3.22,23

Mathew 5.4

Mathew 25.34

Luc 23.43

Ioan 3.16

Ioan 6.40

Ioan 11.25,26

Ioan 14.2,3

Rhufeiniaid 8,38, 39

I Corinthiaid 2.9-10a

I Corinthiaid 15.25,26

II Corinthiaid 1.3,4

II Corinthiaid 5.1

## VI. PASTORAL INTRODUCTION TO THE FUNERAL SERVICE

*These or other words may be used:*

God's love and power extend over all creation. Every life is precious to God. Christians have always believed that there is hope in death as in life, and that there is new life in Christ beyond death. Jesus said, "I am the resurrection and the life. Those who believe in me, even though they die, will live, and everyone who lives and believes in me will never die" (*John 11.25,26*).

There is a real sense of loss at the death of a loved one. We will each have had our own experiences of their life and death, with different memories and different feelings of love, grief and respect. To recognize this at the beginning of the service should help us to express our faith and our feelings as we say farewell, to acknowledge our loss and our sorrow, and to reflect on our own mortality. Those who mourn need support and consolation. Our presence here today is part of that continuing support.

## VII. SUPPLEMENTARY TEXTS

### SENTENCE

God will show us the path of life; in his presence is the fullness of joy: at his right hand there is pleasure for evermore.  
(*cf. Psalm 16.10*).

Psalm 46.1

Out of the depths have I cried to you, O Lord; Lord, hear my voice; let your ears consider well the voice of my supplications.  
(*cf. Psalm 130.1*).

I know that my Redeemer lives, and that at the last he will stand upon the earth; and after my skin has been thus destroyed, yet in my body I will see God. Yes, I will see him for myself with my own eyes - I, and not another.  
*Job 19.25-27*.

Ecclesiastes 5.15,16

Lamentations 3.22,23

Matthew 5.4

Matthew 25.34

Luke 23.43

John 3.16

John 6.40

John 11.25,26

John 14.2,3

Romans 8,38, 39

I Corinthians 2.9-10a

I Corinthians 15.25,26

II Corinthians 1.3,4

II Corinthians 5.1

Yr ydym yn credu i Iesu farw ac atgyfodi, felly hefyd bydd Duw, gydag ef, yn dod â'r rhai a hunodd drwy Iesu. Felly byddwn gyda'r Arglwydd yn barhaus. Calonogwch eich gilydd, felly, â'r geiriau hyn.

(I Thesalonïaid 4.14, 17b,18)

Ni ddaethom â dim i'r byd, ac felly hefyd ni allwn fynd â dim allan ohono. Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith. Bendigedig fyddo enw'r Arglwydd.

(I Timotheus 6.7, Job 1.21b)

*Mewn gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid:*

Dywedodd Iesu, "Y mae gan y sawl sy'n bwyta fy nghnawd i ac yn yfed fy ngwaed i fywyd tragwyddol, a byddaf fi'n ei atgyfodi yn y dydd olaf". (Alelwia !) (Ioan 6.54)

## RHAI TESTUNAU Y GALL Y GWEINIDOG EU DEFNYDDIO

### DERBYN YR ARCH

Derbyniwn gorff ein *brawd/chwaer E.* gyda hyder yn Nuw, rhoddwr bywyd, a gyfododd yr Arglwydd Iesu o blith y meirw.

### TAENELLU DŴR AR YR ARCH

Â'r dŵr hwn cofiwn fedydd *E.* Megis yr aeth Crist trwy ddyfroedd dyfnion marwolaeth er ein mwyn, dyged ni felly i gyflawnder bywyd yr atgyfodiad gyda *E.* a phawb a brynwyd.

*Neu*

Caniatâ, O Arglwydd, fod i ni a fedyddir i farwolaeth fy Fab, ein Hiachawdwr Iesu Grist, farwhau'n wastad ein dyheadau drygionus, a chael ein claddu gydag ef; a thrwy'r bedd a phorth angau fynd ymlaen i'n hatgyfodiad llawen; trwy ei haeddiannau ef, a fu farw ac a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn, dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

### GOSOD GORCHUDD DROS YR ARCH

Yr ydym eisoes yn blant Duw, ond ni ddatguddiwyd eto beth a fyddwn. Eto fe wyddom pan ymddengys Crist y byddwn yn debyg iddo, oherwydd cawn ei weled fel y mae.

*Neu*

Ar Fynydd Seion fe symuda Duw y gorchudd o alar sy dros yr holl genhedloedd. Fe ddinistria angau am byth, a sychu ymaith y dagrau oddi ar bob wyneb.

### GOSOD BEIBL AR YR ARCH

O Arglwydd Iesu Grist, dwg dy air bywiol ac anfarwol ni i enedigaeth newydd. Hysbyswyd yn y Beibl dy addewidion tragwyddol i ni ac i *E.*

### GOSOD CROES AR YR ARCH

O Arglwydd Iesu Grist, o gariad at *E.* ac at bob un ohonom dygaist ein pechodau ar y groes.

### BENDITHIO BEDD

O Dduw, y gosodwyd dy Fab Iesu Grist mewn bedd: bendithia, gweddiwn arnat, y bedd hwn i fod yn lle y gall corff *E.* dy *was/wasanaethferch* orffwyso mewn tangnefedd, trwy dy Fab sy'n atgyfodiad ac yn fywyd, a fu farw ac sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn awr a hyd byth. **Amen.**

We believe that Jesus died and rose again and so we believe that God will bring with Jesus those who have fallen asleep in him. And so we will be with the Lord for ever. Therefore encourage each other with these words.

*(I Thessalonians 4.14, 17b,18).*

We brought nothing into the world, and we can take nothing out of it. The Lord gave and the Lord has taken away; may the name of the Lord be praised.

*(I Timothy 6.7, Job 1.21b).*

At the celebration of the Holy Eucharist: Jesus said, "Whoever eats my flesh and drinks my blood has eternal life, and I will raise him up on the last day". (Alleluia !)

*(John 6.54).*

## **SOME TEXTS WHICH MAY BE USED BY THE MINISTER**

### RECEIVING THE COFFIN

We receive the body of our *brother/sister N.* with confidence in God, the giver of life, who raised the Lord Jesus from the dead.

### SPRINKLING THE COFFIN WITH WATER

With this water we call to mind *N.'s* baptism. As Christ went through the deep waters of death for us, so may he bring us to the fullness of resurrection life with *N.* and all the redeemed.

*Or*

Grant, Lord,

that we who are baptized into the death of your Son our Saviour Jesus Christ may continually put to death our evil desires and be buried with him:

and that through the grave and gate of death we may pass to our joyful resurrection; through his merits, who died and was buried and rose again for us, your Son Jesus Christ our Lord.

**Amen.**

### COVERING THE COFFIN WITH A PALL

We are already God's children, but what we shall be has not yet been revealed. Yet we know that when Christ appears we shall be like him, for we shall see him as he is.

*Or*

On Mount Zion the Lord will remove the pall of sorrow hanging over all nations. He will destroy death for ever. He will wipe away the tears from every face.

### PLACING A BIBLE ON THE COFFIN

Lord Jesus Christ,

your living and imperishable word brings us to new birth. Your eternal promises to us and to *N.* are proclaimed in the Bible.

### PLACING A CROSS ON THE COFFIN

Lord Jesus Christ, for love of *N.* and each one of us you bore our sins on the cross.

### THE BLESSING OF A GRAVE

O God, whose Son Jesus Christ was laid in a tomb: bless, we pray, this grave as the place where the body of *N.* your servant may rest in peace, through your Son, who is the resurrection and the life; who died and is alive and reigns with you now and for ever. **Amen.**

## VIII. ANGLADD PLENTYN

### NODIADAU

1. Y mae'r Nodiadau cyffredinol ar y Gwasanaeth Angladd a Strwythur y Drefn ar gyfer Gwasanaethau Angladd (adran I) yr un mor berthnasol i'r gwasanaeth hwn.
2. Dylid croesawu presenoldeb plant bach yn angladd plentyn, a dylid dwyn ar gof eu hanghenion. Y mae'n gymorth arbennig os oes oedolyn addas a all ofalu am bawb o'r plant.
3. Dylid sicrhau ei bod yn glir pwy sy'n llywyddu gydol y gwasanaeth, pwy sy'n cyflwyno'r gwasanaeth ac yn ei ddiweddu, ac nad yw nifer y siaradwyr, yr eitemau cerddorol a'r darlenniadau heb fod o'r Beibl yn rhwystro'r gwasanaeth rhag canolbwyntio ar glywed gair Duw, gweddïo a diolch.
4. Pryd bynnag y bo'n bosibl, dylid defnyddio enw'r plentyn yn nhestun y gwasanaeth.
5. Fe all y bydd rhiant am gario arch plentyn ieuanc iawn neu faban.

### ADNODDAU AT ANGLADD PLENTYN

*Y mae'r adnoddau hyn yn addas ar gyfer gwahanol achlysuron a gwahanol oedrannau.*

### Y DOD YNGHYD

### GEIRIAU O GYFARCH

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi:

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Yr ydym yn cwrdd yn enw Iesu Grist, a fu farw ac a gyfododd er gogoniant Duw Dad.

### GEIRIAU I GYFLWYNO'R GWASANAETH

Daethom ynghyd i addoli Duw, y bu ei Fab Iesu farw ar y groes fel y caem ni fywyd tragwyddol; i ddiolch i Dduw am ei gariad; i gofio am fywyd daearol y plentyn hwn, **E**; i weddïo y caiff ei rh/rieni **E**. a **E.**, a'i f/brawd **E**. a'i chwaer **E**. eu cysuro yn eu tristwch; i rannu ein galar ac i gyflwyno **E**. i ofal cariadus Duw.

### BRAWDDEGAU RHAGARWEINIOL

Rhufeiniaid 8.38,39

Datguddiad 7.17

I Ioan 3.2

Rwy'n dweud wrthyf fod angylion y rhai bychain hyn bob amser yn edrych ar wyneb fy Nhad sydd yn y nefoedd.

(*cf. Mathew 18.10b*)

Marc 10.14

Eseia 66.13

## VIII. FUNERAL OF A CHILD

### NOTES

1. The general Notes to the Funeral Service and the Structure of the Order for Funeral Services (section I) apply equally to this service.
2. The presence of young children at a child's funeral should be welcomed and their needs should be borne in mind. In particular it is helpful if there is an appropriate adult who can accompany all the children.
3. Care should be taken to ensure that it is clear who is presiding throughout, who introduces and concludes the service, and that the number of other speakers, musical items and non-biblical readings does not unbalance the service from its focus on the word of God, prayer and thanksgiving.
4. Wherever possible, the name of the child should be used in the text of the service.
5. A parent may wish to carry the coffin of a very young child/baby.

### RESOURCES FOR THE FUNERAL OF A CHILD

*These resources are suitable for different occasions and different ages.*

#### THE GATHERING

##### WORDS FOR THE GREETING

Grace and peace be with you:  
**and keep you in the love of Christ.**

We meet in the name of Jesus Christ, who died and was raised to the glory of God the Father.

##### WORDS FOR INTRODUCING THE SERVICE

We have come together to worship God, whose own Son Jesus died on the Cross that we might have eternal life; to thank God for his love; to remember the life on earth of this child **N.**; to pray that *his/her* parents **N. and N.**, brother **N.** and sister **N.**, may be comforted in their sadness; to share our grief and to commend **N.** to the loving care of God.

##### INTRODUCTORY SENTENCES

Romans 8.38,39

Revelation 7.17

I John 3.2

I tell you, in heaven the angels of these little ones continually see the face of my Father in heaven.

*(cf. Matthew 18.10b)*

Mark 10.14

Isaiah 66.13

## GWEDDÏAU AGORIADOL

Dduw pob trugaredd, ni fyddi'n gwneud dim yn ofer ac yr wyt yn caru pob peth a wnaethost. Diddana ni yn ein galar, a chysura ni â gwybodaeth o'th gariad di-feth, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

O Dduw, a'n dygaist ni i'n genedigaeth, ac y byddwn farw yn dy freichiau, cysura ni yn ein galar a'n braw: cofleidia ni â'th gariad, dyro inni obaith yn ein dryswch a gras i ollwng gafael fel y cawn fywyd newydd; trwy Iesu Grist. **Amen.**

Dduw cariad, clymaist ni mewn bywyd yn un â **E. / 'r rhai a garwn**, ac agoraist borth y nefoedd trwy ddiodeffaint ac atgyfodiad Iesu; edrych arnom yn dy drugaredd, dyro inni ddewrder i wynebu ein galar a dwg ni oll i gyflawnder y bywyd atgyfodedig; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

## DARLLENIADAU

*Gall un o'r darnau a ganlyn o'r Ysgrythur fod yn addas*

Salm 23

Salm 84.1-4

Caniad Solomon 2.10-13

Eseia 49.15,16

Jeremeia 1.4-8

Jeremeia 31.15-17

Mathew 18.1-5,10

Marc 10.13-16

Ioan 6.37-40

Ioan 10.27,28

Rhufeiniaid 8.18, 28,35, 37-39

I Corinthiaid 13.1-13

Effesiaid 3.14-19

## GWEDDÏAU

*Fel rheol, bydd y gweddïau yn dilyn y drefn hon:*

Diolchgarwch am fywyd y plentyn, ni waeth pa mor fyr y bu

Gweddi dros y rhai sy'n galaru

Gweddi am barodrydd i fyw yng ngoleuni tragwyddoldeb



## OPENING PRAYERS

God of all mercies, you make nothing in vain and love all that you have made. Comfort us in our grief, and console us by the knowledge of your unfailing love, through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

O God, who brought us to birth, and in whose arms we die, in our grief and shock, contain and comfort us; embrace us with your love, give us hope in our confusion and grace to let go into new life; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

God of love, you have bound us together in life with **N. / those we love** and opened the door of heaven through the suffering and resurrection of Jesus; look upon us in your mercy, give us courage to face our grief and bring us all to the fullness of the risen life; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

## READINGS

*One of the following Scriptural passages may be suitable*

Psalm 23

Psalm 84.1-4

Song of Solomon 2.10-13

Isaiah 49.15,16

Jeremiah 1.4-8

Jeremiah 31.15-17

Matthew 18.1-5,10

Mark 10.13-16

John 6.37-40

John 10.27,28

Romans 8.18, 28,35, 37-39

I Corinthians 13.1-13

Ephesians 3.14-19

## PRAYERS.

*The prayers usually follow this sequence:*

Thanksgiving for the child's life, however brief

Prayer for those who mourn

Prayer for readiness to live in the light of eternity

*Y mae rhai awgrymiadau yn dilyn. Bydd yn rhaid dethol o'u plith yn ôl oedran ac amgylchiadau.*

1.

Y mae'r Arglwydd Iesu yn caru ei bobl, ac ef yw ein hunig obaith diogel.

Gofynnwn iddo ddyfnhau ein ffydd a'n cynnal yn yr awr dywyll hon.

Daethost yn blentyn bach er ein mwyn a rhannu ein bywyd meidrol.

Arnat ti y gweddiwn: **bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.**

Croesewaist blant ac addo iddynt dy deyrnas.

Arnat ti y gweddiwn: **bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.**

Cysuraist rai a oedd yn galaru o golli plant a chyfeillion.

Arnat ti y gweddiwn: **bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.**

Cymeraist arnat dy hun ddiodefaint a marwolaeth pawb ohonom.

Arnat ti y gweddiwn: **bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.**

Addewaist gyfodi'r sawl sy'n credu ynot,

fel y'th gyfodwyd di mewn gogoniant gan y Tad.

Arnat ti y gweddiwn: **bendithia ni a chadw ni, O Arglwydd.**

2.

O Dad, yr wyt yn adnabod ein calonnau ac yn rhannu ein gofidiau.

Cawsom ein brifo o'n gwahanu oddi wrth **E.** yr oeddem yn ei *g/charu*:

a ninnau'n ddi-clon oherwydd ein colled,

ac yn dyheu am eiriau o gysur,

ond yn ei chael hi'n anodd eu clywed,

tro ein galar yn ffydd amyneddgar,

a'n cystudd yn obaith cadarn

yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

3.

O Dad, daeth marwolaeth **E.** â gwacter i'n bywydau.

Gwahanwyd ni oddi *wrtho/i*

ac yr ydym yn teimlo'n friwedig ac mewn dryswch.

Dyro inni hyder ei *f/bod* yn ddiogel

a bod ei *f/bywyd* yn gyflawn gyda thi,

a dwg ni ynghyd yn y diwedd

i lawnder a chyflawnder dy bresenoldeb di yn y nefoedd,

lle y mae dy saint a'th engyl yn dy fwynhau byth bythoedd. **Amen.**

4.

Arglwydd, gweddiwn dros y rhai sy'n galaru,

dros blant a rhieni,

cyfeillion a chymdogion.

Bydd yn dyner wrthynt yn eu galar.

Dangos iddynt ddyfnderoedd dy gariad,

a rho iddynt gipolwg ar y nefoedd.

Arbed hwy rhag gwewyr euogrwydd ac anobaith.

Bydd gyda hwy wrth iddynt wylo ger bedd gwag

ein Hiachawdwr atgyfodedig. **Amen.**

*Some suggestions follow, from which a choice will need to be made according to age and circumstances.*

1.

The Lord Jesus is the lover of his people and our only sure hope.  
Let us ask him to deepen our faith and sustain us in this dark hour.  
You became a little child for our sake, sharing our human life.  
To you we pray: **bless us and keep us, O Lord.**  
You welcomed children, promising them your kingdom.  
To you we pray: **bless us and keep us, O Lord.**  
You comforted those who mourned the loss of children and friends.  
To you we pray: **bless us and keep us, O Lord.**  
You took upon yourself the suffering and death of us all.  
To you we pray: **bless us and keep us, O Lord.**  
You promised to raise up those who believe in you,  
just as you were raised up in glory by the Father.  
To you we pray: **bless us and keep us, O Lord.**

2.

Father, you know our hearts and share our sorrows.  
We are hurt by our parting from **N.** whom we love:  
when we are angry at the loss we have sustained,  
when we long for words of comfort,  
yet find them hard to hear,  
turn our grief to more patient faith,  
our affliction to firmer hope  
in Jesus Christ our Lord. **Amen.**

3.

Father, the death of **N.** brings an emptiness into our lives.  
We are separated from *him/her*  
and feel broken and bewildered.  
Give us confidence that *he/she* is safe  
and *his/her* life complete with you,  
and bring us together at the last  
to the wholeness and fullness of your presence in heaven,  
where your saints and angels enjoy you for ever and ever. **Amen.**

4.

Lord, we pray for those who mourn,  
for parents and children,  
friends and neighbours.  
Be gentle with them in their grief.  
Show them the depths of your love,  
a glimpse of the kingdom of heaven.  
Spare them the torment of guilt and despair.  
Be with them as they weep beside the empty tomb  
of our risen Saviour. **Amen.**

5.

Drugarocaf Dduw,  
y mae dy ddoethineb uwchlaw pob deall,  
amgylchyna deulu **E.** â'th gariad,  
fel na lether mohonynt gan eu colled,  
ond y caffont hyder yn dy drugaredd,  
a nerth i wynebu'r dyddiau sy'n dod.  
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

6.

Dduw gobaith,  
deuwn atat mewn braw a galar a dryswch calon.  
Cymorth ni i ddod o hyd i dangnefedd  
mewn gwybodaeth o'th drugaredd cariadus at bawb o'th blant,  
a dyro inni oleuni i'n tywys o dywyllwch  
i sicrwydd dy gariad  
na all dim ein gwahanu oddi wrtho. **Amen.**

7.

O Dduw, nid wyt o'th wirfodd yn peri gofid na chystudd i'th blant.  
Edrych yn drugarog ar ddiodefaint y teulu hwn yn eu colled.  
Cynnal hwy yn eu poen;  
ac i dywyllwch eu galar  
dwg oleuni dy gariad.  
Gofynnwn hyn trwy Iesu Grist. **Amen.**

8.

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist:  
**Tad pob trugaredd a Duw pob cysur.**  
Y mae'r Arglwydd yn agos at bawb sy'n galw arno:  
**at bawb sy'n galw arno mewn gwirionedd.**  
Fel y mae Tad yn tosturio wrth ei blant:  
**felly y tosturia'r Arglwydd wrth y rhai sy'n ei ofni.**  
Fel y cysura mam ei phlentyn:  
**felly y rhydd yr Arglwydd gysur.**  
Yna cymerodd Iesu y plant yn ei freichiau:  
**rhoddodd ei ddwylo ar bob un ohonynt a'u bendithio.**

DROS Y RHIENI

9.

Dad nefol,  
ti yn unig a all iacháu calonnau briw;  
ti yn unig a all sychu ymaith y dagrau sy'n cronni ynom;  
ti yn unig a all roi inni y tangnefedd y mae arnom ei angen;  
ti yn unig a all ein nerthu i ddyfalbarhau.  
Gofynnwn iti fod yn agos at y rhai  
y trowyd eu llawenydd yn dristwch.  
Sicrha hwy nad oes dim yn wastraff nac yn anghyflawn gyda thi,  
a chynnal hwy â'th gariad tyner.  
O'n cynnal gan dy nerth,  
dyfnhaer ein cariad at ein gilydd  
trwy adnabyddiaeth o'th gariad at bob un ohonom. **Amen.**

5.  
Most merciful God,  
whose wisdom is beyond our understanding,  
surround the family of **N.** with your love,  
that they may not be overwhelmed by their loss,  
but have confidence in your love,  
and strength to meet the days to come.  
We ask this through Christ our Lord. **Amen.**

6.  
God of hope,  
we come to you in shock and grief and confusion of heart.  
Help us to find peace  
in the knowledge of your loving mercy to all your children,  
and give us light to guide us out of darkness  
into the assurance of your love  
from which nothing can separate us. **Amen.**

7.  
O God, you do not willingly grieve or afflict your children.  
Look with pity on the suffering of this family in their loss.  
Sustain them in their anguish;  
and into the darkness of their grief  
bring the light of your love;  
through Jesus Christ we pray. **Amen.**

8.  
Blessed be the God and Father of our Lord Jesus Christ:  
**the Father of mercies and the God of all comfort.**  
The Lord is near to those who call upon him:  
**to all who call upon him faithfully.**  
As a father is tender towards his children:  
**so is the Lord tender to those that fear him.**  
As a mother comforts her child:  
**so shall the Lord bring you comfort.**  
Then Jesus took the children in his arms:  
**he placed his hands on each of them and blessed them**

FOR THE PARENTS.

9.  
Heavenly Father,  
you alone can heal our broken hearts;  
you alone can wipe away the tears that well up inside us;  
you alone can give us the peace we need;  
you alone can strengthen us to carry on.  
We ask you to be near those  
whose time of joy has been turned into sadness.  
Assure them that with you nothing is wasted or incomplete,  
and uphold them with your tender love.  
Supported by your strength,  
may our love for one another be deepened  
by the knowledge of your love for us all. **Amen.**

10.

Dad cariadus,  
daethost a'th ferch **E.**  
yn ddiogel o'i hesgor.  
Gweddiwn y bydd i **E.** (ac **E.**) adnabod dy gynhaliaeth a'th gariad  
yn yr amser hwn o ofid a galar am golli eu plentyn,  
a mwynhau dy noddod di bob amser;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

11.

Dad cariadus,  
safodd dy wasanaethferch Mair,  
mam ein Harglwydd a'n Duw, Iesu Grist,  
wrth droed y groes pan oedd ei mab yn marw.  
Diddaned yr un Iesu,  
a orchfygodd angau,  
a gyfododd ac a esgynnodd i'r nefoedd  
bob rhieni galarus,  
a chryfhau eich ffydd chwi;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

#### DROS BLANT Y TEULU

12.

Arglwydd Iesu,  
gofynnwn iti fod yn agos at blant y teulu hwn,  
y newidiwyd eu bywydau gan alar.  
Dyro iddynt ddewrder i wynebu eu colled,  
a diddana hwy â'th gariad digyfnewid. **Amen.**

13.

Gwrando, os gweli di'n dda, O Dduw  
tra byddwn yn sôn wrthyt am **E.** sydd wedi marw.  
Gofala amdano/i, a gofala amdanom ninnau hefyd.  
Diolch iti am yr amseroedd a gawsom gyda'n gilydd.  
Diolch iti am Iesu, sy'n dangos inni ei gariad.  
Y mae ef yn agos at **E.**, ac yn agos atom ninnau.  
Diolch iti, Dduw. **Amen.**

#### GENEDIGAETH FARW NEU ERTHYLIAD NATURIOL

14.

Dduw ein creawdwr,  
y daw pob bywyd oddi wrthyt,  
cysura **E.** (ac **E.**) yn *ei/eu* galar o golli *ei/eu* baban.  
Tywys *hi/hwy* i sicrwydd  
nad oes yr un bywyd yn wastraff nac yn anghyflawn gyda thi,  
a chynnal *hi/hwy* â'th gariad,  
trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr. **Amen.**

10.

Loving Father,  
in your mercy you have brought your daughter **N.**  
through childbirth in safety.  
We pray that **N. (and N.)** will know your support and love  
in this time of trouble and sorrow at the loss of their child,  
and enjoy your protection always;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

11.

Loving Father,  
your servant Mary,  
the mother of our Lord and God, Jesus Christ,  
stood by the cross while her Son was dying.  
May that same Jesus, victorious over death,  
risen and ascended,  
give comfort to all grieving parents,  
and strengthen their faith in you;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

#### THE CHILDREN IN THE FAMILY

12.

Lord Jesus,  
we ask you to be close to the children of this family,  
whose lives have been changed by sorrow.  
Give them courage to face their loss,  
and comfort them with your unchanging love. **Amen.**

13.

Please listen God  
while we talk to you about **N.** who has died.  
Take care of *him/her* and please take care of us too.  
Thank you for the times we had together,  
Thank you for Jesus who shows us your love.  
He is close to **N.**, and he is close to us.  
Thank you God. **Amen.**

#### STILLBIRTH OR MISCARRIAGE

14.

God our creator,  
from whom all life comes,  
comfort **N. (and N.)**, grieving for the loss of *her/their* baby.  
Help *her/them* to find assurance  
that with you no life is wasted or incomplete,  
and uphold *her/them* with your love,  
through Jesus Christ our Saviour. **Amen.**

15.

Dduw grasol,  
dolchwn iti am y cariad y cenhedlwyd y baban hwn (**E.**) ynddo,  
ac am gariad y cartref yr oedd i fod i gael ei *g/eni* iddo.  
Gweddiwn y bydd i gariad ei *rh/rieni* at ei gilydd  
dyfu a dyfnhau.  
Dyro inni ras i wrando ar ein gilydd  
yn amyneddgar a deallus,  
ac i gynorthwyo ein gilydd yn y dyddiau sydd i ddod. **Amen.**

FFARWELIO

16.

Dad nefol,  
y mae **E.** ac **E.** wedi rhoi i'w baban yr enw **E.**  
– enw a drysorir yn eu calonau am byth.  
Ond ti a'i lluniodd *ef/hi* yn y groth;  
yr oedditi yn ei *h/adnabod* wrth ei *h/enw* cyn dechrau amser.  
Cyflwynwn **E.** yn awr i'th ofal cariadus a thyner.  
Am gyfnod a oedd mor fyr  
daeth ag addewid o lawenydd i lawer.  
Lapia *ef/hi* yn awr yn y bywyd tragwyddol,  
yn enw ein Hiachawdwr atgyfodedig,  
a anwyd ac a fu farw,  
ac sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân am byth. **Amen.**

GWEDDIAU Y GELLIR EU CYMERADWYO I'W DEFNYDDIO'N BERSONOL GAN Y  
RHIENI

17.

Dduw cariad a bywyd,  
rhoddaist inni **E.** yn *fab/merch* i ti.  
Sicrha ni yn awr,  
er iddo/i fynd o'n golwg ni,  
nad aeth o'th olwg nac o'th ofal di.  
Tyrd yn agos atom yn ein tristwch,  
dwg o'n galar fendith,  
a chynorthwya ni yn ein dagrau a'n poen  
i'th adnabod di yn sefyll gyda ni  
ac i brofi dy gariad a'th iachâd;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

18.

Dduw pob dirgelwch,  
y mae dy ffyrdd uwchlaw pob deall,  
tywys ni, sy'n galaru am y farwolaeth annhymig hon,  
i ffydd newydd, a dyfnach ffydd, yn dy gariad,  
a ddaeth â'th unig Fab Iesu  
trwy farwolaeth i fywyd yr atgyfodiad.  
Gweddiwn yn enw Iesu. **Amen.**



15.

Gracious God,  
we thank you for the love in which this baby (**N.**) was conceived  
and for the love of the home into which *s/he* was to be born.  
We pray that the love which *his/her* parents have for each other  
may grow and deepen.  
Give us grace, in patience and understanding,  
to listen to each other,  
and to help one another in the days to come. **Amen.**

#### FAREWELL

16.

Heavenly Father, **N. and N.** have named their baby **N.**  
- a name to be treasured for ever in their hearts.  
But it was you who formed *him/her* in the womb;  
you knew *him/her* by name before time began.  
Now we commit **N.** into your ever-caring and gentle love;  
*s/he* brought the promise of joy  
to many lives for so short a time;  
enfold *him/her* now in eternal life,  
in the name of our risen Saviour who was born and died  
and lives and reigns with you and the Holy Spirit for ever. **Amen.**

#### PRAYERS WHICH MAY BE COMMENDED FOR PERSONAL USE BY THE PARENTS

17.

God of love and life,  
you gave **N.** to us as our *son/daughter*.  
Give us now the assurance  
that though *s/he* has passed from our sight,  
*s/he* has not passed from your care.  
Draw near to us in our sadness,  
bring blessing out of grief,  
and help us in our tears and pain  
to know you standing alongside us  
and to experience your love and healing;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

18.

God of all mystery,  
whose ways are beyond understanding,  
lead us, who grieve at this untimely death,  
to a new and deeper faith in your love,  
which brought your only Son Jesus  
through death into resurrection life.  
We make our prayer in Jesus' name. **Amen.**

19.

Dduw'r trugaredd di-feth,  
yn dy gariad creadigol a'th dynerwch rhoddaist inni **E.**,  
a oedd mor llawn gobaith am y dyfodol.  
Ti yw ffynhonnell bywyd pob un ohonom,  
a nerth ein holl ddyddiau.  
Fe'n gwnaethost nid i dywyllwch a marwolaeth,  
ond i'th weld wyneb yn wyneb  
ac i fwynhau cyflawnder bywyd.  
Cynorthwyo ni i ddiddanu y naill y llall  
â'r diddanwch a gawn oddi wrthyt ti;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

20.

Dduw pob gras a diddanwch,  
diolchwn iti am **E.**,  
ac am y lle a oedd iddo/i yng nghalonau pawb ohonom.  
Diolchwn am y cariad y cenhedlwyd *ef/hi* ynddo  
ac am y gofal a'i hamgylchynai.  
Wrth inni gofio amseroedd o ddagrau a chwerthin,  
diolchwn iti am y cariad a ranasom o'i herwydd,  
ac a adlewyrchai'r cariad hwnnw a dywelltaist ti arnom  
yn dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

21.

Dduw ein Tad,  
yr wyt yn gwybod ein meddyliau ac yn rhannu ein gofidiau.  
Tywys ni o'n trallod  
i ddiddanwch cysurus dy gariad.  
Pan anghofiwn beth yw hapusrwydd,  
adfer ynom ffynhonnau gloywon o obaith.  
Pan amddifader ni o dangnefedd,  
adnewyddda ein calonnau a thawela ein hofnau.  
A phan ddeuwn yn y diwedd at ein hymadael olaf,  
dwg ni adref atat ti am byth  
i gyflawnder teulu Duw;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

22.

Dad nefol, ein cydymaith,  
y mae dy gariad bob amser gyda ni,  
hyd yn oed pan awn i mewn i ddirgelwch tywyll dioddefaint a cholled;  
trown atat yn awr mewn ffydd,  
a gofynnwn iti roddi i'th annwyl blentyn **E.**  
noddod dy gariad.  
Cysura ni, O Dad,  
a thywys *ef/hi* i lawenydd a chyflawnder yn dy deyrnas nefol,  
trwy nerth y cariad a ddatguddiwyd inni yn dy Fab,  
ein Hiachawdwr Iesu Grist. **Amen.**

19.

God of unfailing compassion,  
in your creative love and tenderness you gave us **N.**,  
so full of hope for the future.  
You are the source of all our lives,  
the strength of all our days.  
You did not make us for darkness and death  
but to see you face to face  
and to enjoy abundant life.  
Help us to comfort one another  
with the consolation we ourselves receive from you;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

20.

God of all grace and comfort,  
We thank you for **N.**,  
and for the place *s/he* held in all our hearts.  
We thank you for the love in which *s/he* was conceived  
and for the care with which *s/he* was surrounded.  
As we remember times of tears and laughter,  
we thank you for the love we shared because of *him/her*,  
reflecting that love which you poured upon us  
in your Son Jesus Christ our Lord. **Amen.**

21.

God our Father,  
you know our thoughts and share our sorrows.  
Lead us out of desolation  
to the caring comfort of your love.  
When we forget what happiness is,  
renew in us fresh springs of hope.  
When we feel bereft of peace,  
restore our hearts and calm our fears.  
And when we come at last to our departing,  
bring us home with you for ever;  
the family of God complete;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

22.

Heavenly Father, our companion,  
whose love is always with us,  
even when we enter the dark mystery of suffering and loss;  
we turn to you now in faith,  
and ask you to give to our beloved child **N.**  
the protection of your love.  
Comfort us, Father,  
and lead to joy and fulfilment in your heavenly kingdom,  
by the power of the love revealed to us in your Son,  
our Saviour Jesus Christ. **Amen.**

23.

Arglwydd pob peth, diolchwn iti  
am dy waith yn y greadigaeth,  
am feithrin bywyd yn y groth,  
am dy gariad hyd yn oed yn yr angau.  
Diolch iti am fywyd dy blentyn hwn **E.**,  
a roddaist i ni ac a gymeraist atat dy hun.  
Diolch iti am fod breichiau dy gariad  
yn cofleidio **E.** a ninnau yn dy deulu.  
Diolch iti am dy bresenoldeb yn ein galar  
a'th nerth wrth i'n teulu fynd yn hŷn.  
Cymer ein tristwch a llanw ni â'th Ysbryd  
i'th wasanaethu ar y ddaear ac i ymuno â'th saint mewn gogoniant;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

### CYFLWYNO A FFARWELIO

1.

O Dduw, ein creawdwr a'n prynwr,  
trwy dy allu fe orchfygodd Crist angau  
a dychwelyd atat mewn gogoniant.  
Mewn hyder yn dy fuddugoliaeth  
a chan hawlio dy addewidion,  
yr ydym yn ymddiried **E.** i'th ofal  
yn enw Iesu ein Harglwydd,  
sydd, er iddo farw, yn awr yn fyw  
ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,  
yn un Duw yn awr ac am byth. **Amen.**

### 2. PLENTYN HŷN

I'th ddwylo di, Arglwydd,  
ein creawdwr ffyddlon a'n prynwr cariadus,  
yr ydym yn cyflwyno dy blentyn **E.**,  
canys yr eiddot ti ydyw yn yr angau fel mewn bywyd.  
Yn dy fawr drugaredd  
cymer *ef/hi* yn dy freichiau  
a chyflawna ynddo/i bwrpas dy gariad;  
fel, *ac yntau/a hithau*'n llawenhau yng ngoleuni ac adfywiad dy bresenoldeb,  
y caiff fwynhau'r bywyd hwnnw a baratoaist  
i bawb sy'n dy garu,  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

### 3. PLENTYN IEUANC

Dad nefol,  
y cymerodd dy Fab, ein Gwaredwr  
blant bychain yn ei freichiau a'u bendithio:  
derbyn, gweddiwn arnat, dy blentyn **E.**  
yn dy gariad a'th ofal di-feth;  
cysura bawb a'i carodd ar y ddaear,  
a dwg ni oll i'th deyrnas dragwyddol;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

23.

Lord of all, we thank you  
for your work in creation,  
for nourishing life in the womb,  
for your love even in death.  
Thank you for the life of this child **N.**,  
whom you gave to us and have taken to yourself.  
Thank you for the arms of your love,  
embracing both us and **N.** in your family.  
Thank you for your presence in our sorrow  
and your strength as our family grows older.  
Take our sadness, and fill us with your Spirit  
to serve you on earth and join your saints in glory;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

#### COMMENDATION AND FAREWELL

1.

God our creator and redeemer,  
by your power Christ conquered death  
and returned to you in glory.  
Confident of your victory  
and claiming his promises,  
we entrust **N.** into your keeping  
in the name of Jesus our Lord,  
who, though he died, is now alive  
and reigns with you and the Holy Spirit,  
one God now and for ever. **Amen.**

#### 2. AN OLDER CHILD

Into your hands, Lord,  
our faithful creator and most loving redeemer,  
we commend your child **N.**,  
for *s/he* is yours in death as in life.  
In your great mercy  
gather *him/her* into your arms  
and fulfil in *him/her* the purpose of your love;  
that, rejoicing in the light and refreshment of your presence,  
*s/he* may enjoy that life which you have prepared  
for all those who love you,  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

#### 3. A YOUNG CHILD.

Heavenly Father,  
whose Son our Saviour  
took little children into his arms and blessed them:  
receive, we pray, your child **N.**  
in your never-failing care and love,  
comfort all who have loved *him/her* on earth,  
and bring us all to your everlasting kingdom;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

#### 4. BABAN

I ti, addfwyn Dad,  
yr ydym yn wylaidd yn ymddiried y plentyn hwn  
sydd mor werthfawr yn dy olwg.  
Cymer *ef/hi* yn dy freichiau  
a chrosawa *ef/hi* i'th wŷydd,  
lle nad oes na galar na phoen,  
ond cyflawnder tangnefedd a llawenydd gyda thi  
byth bythoedd. **Amen.**

#### 5. GENEDIGAETH FARW

Dduw pob trugaredd, ni fyddi'n gwneud dim yn ofer  
ac yr wyt yn caru popeth a greaist;  
cyflwynwn iti **E.**, plentyn **E.** ac **E.**,  
y tywalltasant arno/i y fath gariad mawr,  
ac yr oeddynt yn llawn gobeithion a breuddwydion am ei *d/ddyfodol*.  
Yr oeddem wedi hiraethu am gael ei *g/chrosawu* i'n plith;  
dyro inni sicrwydd yr amgylchynir *ef/hi* yn awr  
ym mreichiau dy gariad,  
a'i *f/bod* yn rhannu bywyd atgyfodiad  
dy Fab, Iesu Grist. **Amen.**

#### 6. ERTHYLIAD NATURIOL

Dduw pob trugaredd, ni wnei ddim yn ofer  
ac yr wyt yn caru popeth a greaist;  
cyflwynwn iti **E.**, plentyn **E.** ac **E.**,  
y tywalltasant arno/i y fath gariad mawr,  
ac yr oeddynt yn llawn gobeithion a breuddwydion am ei *d/ddyfodol*.  
Dyro iddynt sicrwydd bod eu plentyn,  
er yn anweladwy i ni, yn weladwy ac yn adnabyddus i ti,  
ac y bydd yn rhannu bywyd atgyfodedig dy Fab, Iesu Grist. **Amen.**

#### Y TRADDODIANT

*Defnyddia'r gweinidog un o'r ffurfiau canlynol ar y Traddodiant:*

*Wrth gladdu corff:*

Yn ffydd Crist a chan gredu bod **E.** yn nwylo Duw,  
yr ydym yn traddodi ei *g/chorff* i'r ddaear:  
pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch:  
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol  
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,  
a newidia ein cyrff eiddil ni  
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,  
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.  
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

4. A BABY

To you, gentle Father,  
we humbly entrust this child so precious in your sight.  
Take *him/her* into your arms  
and welcome *him/her* into your presence  
where there is no sorrow nor pain,  
but the fullness of peace and joy with you  
for ever and ever. **Amen.**

5. STILLBIRTH

God of compassion, you make nothing in vain  
and love all you have created;  
we commend to you **N.** and **N.'s** child **N.**,  
for whom they poured out such great love,  
for whom they cherished so many hopes and dreams.  
We had longed to welcome *him/her* amongst us;  
grant us the assurance that *s/he* is now encircled  
in your arms of love,  
and shares in the resurrection life  
of your Son, Jesus Christ. **Amen.**

6. MISCARRIAGE

God of compassion, you make nothing in vain  
and love all you have created;  
we commend to you **N** and **N's** child (**N.**),  
for whom they poured out such great love,  
for whom they cherished so many hopes and dreams.  
Grant them the assurance that their child,  
though not seen by us, is seen and known by you,  
and will share the risen life of your Son, Jesus Christ. **Amen.**

THE COMMITTAL.

*The minister uses one of the following forms of Committal:*

*At the burial of a body:*

In the faith of Christ and believing that **N.** is in the hands of God,  
we commit *his/her* body to the ground:  
earth to earth, ashes to ashes, dust to dust:  
in sure and certain hope of the resurrection to eternal life  
through our Lord Jesus Christ,  
who will transform our frail bodies  
that they may be conformed to his glorious body,  
who died, was buried, and rose again for us.  
To him be glory for ever. **Amen.**

*Mewn amlosgfa, os yw'r Traddodiant i'w ddweud:*

Yr ydym wedi ymddiried **E.** i drugaredd Duw,  
ac yr ydym yn awr yn traddodi ei *g/chorff* i'w amlosgi:  
mewn gwir a diogel obaith o'r atgyfodiad i'r bywyd tragwyddol  
trwy ein Harglwydd Iesu Grist,  
a newidia ein cyrff eiddil ni  
i fod yn unffurf â'i gorff gogoneddus ef,  
a fu farw, a gladdwyd, ac a gyfododd drachefn er ein mwyn.  
Iddo ef y bo'r gogoniant am byth. **Amen.**

*Mewn amlosgfa, os yw'r Traddodiant i ddilyn wrth Gladdu Llŵch wedi Amlosgiad:*

Yr ydym wedi ymddiried **E.** i drugaredd Duw,  
ac yn awr, mewn paratoad at ei *g/chladdedig*aeth,  
yr ydym yn rhoddi ei *g/chorff* i'w amlosgi:  
gan ddisgwyl cyflawnder yr atgyfodiad  
pan gasgl Crist ynghyd ei holl saint  
i deyrnasu gydag ef mewn gogoniant am byth. **Amen.**

YR ANFON ALLAN

Duw fo yn fy mhen  
a'm hymresymiad;  
Duw fo yn fy nhrem,  
ac yn f'edrychiad;  
Duw fo yn fy ngair  
ac yn fy siarad;  
Duw fo yn fy mron  
ac yn fy nirnad;  
Duw ar ben fy nhaith,  
ar f'ymadawiad. **Amen.**

*Bendithion*

Bydded i Grist y bugail da eich lapio yn ei gariad,  
eich llenwi a thangnefedd  
a'ch tywys mewn gobaith gydol eich dyddiau;  
a bendith Duw hollalluog,  
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,  
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Rhodded Duw ichwi ei ddiddanwch a'i dangnefedd,  
ei oleuni a'i lawenydd, yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw;  
a bendith Duw hollalluog,  
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,  
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Bydded i gariad Duw  
a thangnefedd yr Arglwydd Iesu Grist  
eich bendithio a'ch cysuro chwi, a phawb a adnabu ac a garodd **E.**,  
yn awr a hyd byth. **Amen.**



*In a crematorium, if the Committal is to take place then:*

We have entrusted **N.** to God's mercy  
and we now commit *his/her* body to be cremated :  
in sure and certain hope of the resurrection to eternal life  
through our Lord Jesus Christ,  
who will transform our frail bodies  
that they may be conformed to his glorious body,  
who died, was buried, and rose again for us.  
To him be glory for ever. **Amen.**

*In a crematorium, if the Committal is to follow at the Burial of Cremated Remains:*

We have entrusted **N.** to God's mercy  
and now, in preparation for *his/her* burial,  
we give *his/her* body to be cremated:  
We look for the fullness of the resurrection  
when Christ shall gather all his saints  
to reign with him in glory for ever. **Amen.**

#### THE DISMISSAL

God be in my head  
and in my understanding;  
God be in mine eyes,  
and in my looking;  
God be in my mouth,  
and in my speaking;  
God be in my heart,  
and in my thinking;  
God be at mine end,  
and at my departing. **Amen.**

#### *Blessings*

May Christ the good shepherd enfold you with love, fill you with  
peace, and lead you in hope, to the end of your days; and the  
blessing of God almighty, the Father, the Son, and the Holy  
Spirit, be among you and remain with you always. **Amen.**

May God give you his comfort and his peace, his light and his  
joy, in this world and the next; and the blessing of God  
almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit, be among you  
and remain with you always. **Amen.**

May the love of God and the peace of the Lord Jesus Christ  
bless and console you, and all who have known and loved **N.**,  
this day and for evermore. **Amen.**

## IX. GWASANAETH YN Y CARTREF AR ÔL YR ANGLADD

*Gellir addasu'r gwasanaeth hwn i'w ddefnyddio naill ai'n union wedi'r Angladd neu'n ddiweddarach. Gall cyfaill, aelod o'r teulu neu weinidog ei arwain.*

### WRTH Y DRWS

*Gall y gweinidog ddweud*

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Bydded tangnefedd Duw ein Tad nefol, ac Iesu Grist ffynhonnell heddwch, a'r Ysbryd Glân y diddanydd ar y tŷ hwn a phawb sy'n preswyllo ynddo.

Agor, O Dduw, ddrws y tŷ hwn; llewyrched dy oleuni yma i ymlid ymaith bob tywyllwch; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

### GAIR DUW

*Gellir defnyddio un neu ragor o'r darlleniadau a ganlyn:*

Ioan 14.1-3

Mathew 11.28-30

Philipiaid 3.20 - 4.1

Salm 71.1-6, 17-18.

Salm 126. 5-6.

Salm 139. 7-11.

### GWEDDIAU

*Gellir defnyddio gweddi neu weddïau addas allan o Adran XI, neu fe all y bydd gweddïau anffurfiol dros y teulu yn fwy priodol. Gall y weddi hon fod yn arbennig o addas os darperir lluniaeth ar ôl yr Angladd.*

Hollalluog Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, yr adnabu ei ddisgyblion ef wrth iddo dorri'r bara wrth eu bwrdd ar ôl yr atgyfodiad: diolchwn iti am dy nerth i'n cynnal yn yr hyn a wnaethom heddiw, a gofynnwn yn awr am i'th bresenoldeb gael ei gydnabod yn y cartref hwn; dwg dy dangnefedd a'th lawenydd i bob lle sy'n cyffroi'r cof; dyro dy nerth a'th bresenoldeb yn y tasgau beunyddiol hynny a rennid gynt; ac yn holl droeon bywyd dyro inni ras i wneud dy ewyllys ddydd ar ôl dydd, ac i ddisgwyl am ddyfodiad gogoneddus Crist, pan gesgli ni ynghyd at dy fwrdd yn y nefoedd i fod gyda thi byth bythoedd. **Amen.**

### DIWEDDGLO

*Gall y gweinidog ddweud rhan o Salm 121 neu'r cyfan ohoni.*

## IX. A SERVICE AT HOME AFTER THE FUNERAL

*This service may be adapted for use either immediately after the funeral or later. It may be led by a friend or family member or by a minister.*

### AT THE DOOR

*The minister may say*

In the name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit. **Amen.**

The peace of God our heavenly Father, of Jesus Christ the source of peace, and of the Holy Spirit the comforter, come upon this house and all who live here.

Open, O God, the door of this house; let your light shine here to drive away all darkness; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

### THE WORD OF GOD

*One or more of the following readings may be used:*

John 14.1-3

Matthew 11.28-30

Philippians 3.20 - 4.1

Psalms 71.1-6, 17-18.

Psalms 126. 5-6.

Psalms 139. 7-11.

### PRAYERS

*A suitable prayer or prayers from Section XI may be used, or informal prayer for the family may be more appropriate. This prayer may be especially appropriate if there is food after the Funeral.*

Almighty God, the Father of our Lord Jesus Christ, whose disciples recognized him as he broke bread at their table after the resurrection: we thank you for your strength upholding us in what we have done today, and now we ask for your presence to be recognized in this home; bring your peace and joy to each place which stirs the memory; give your strength and presence in those daily tasks which used to be shared, and in all the changes of life give us grace to do your will day by day, and to look for the glorious coming of Christ, when you will gather us together to your table in heaven to be with you for ever and ever. **Amen.**

### CONCLUSION

*The minister may say some or all of Psalm 121.*

## X. GWASANAETH COFFA

### AMLINELLIAD O'R DREFN AR GYFER GWASANAETH COFFA

#### Y DOD YNGHYD

1. Y mae'r gweinidog yn croesawu'r bobl ac yn cyflwyno'r gwasanaeth.
2. Gellir defnyddio brawddegau o'r Ysgrythur.
3. Gellir dweud y Colect yma neu yn ystod y Gweddïau.

#### DARLLENIADAU A PHREGETH

4. Defnyddir darlenniad neu ddarlenniadau o'r Beibl.
5. Gall salmau neu emynau ddilyn y darlenniadau.
6. Traddodir Pregeth.
7. Gellir defnyddio caneuon a darlenniadau eraill, a gellir rhoi teyrngedau.

#### GWEDDÏAU

8. Fel rheol, bydd y gweddïau yn dilyn y drefn hon:  
Diolchgarwch am fywyd yr ymadawedig;  
Gweddi dros y rhai sy'n galaru;  
Gweddi am barodrwydd i fyw yng ngoleuni tragwyddoldeb.
9. Gellir canu emyn.

#### CYFLWYNO A FFARWELIO

10. Pan fo'r amgylchiadau'n briodol, cyflwynir mewn geiriau a awdurdodwyd y sawl a fu farw i Dduw.

#### YR ANFON ALLAN

11. Dywedir Gweddi'r Arglwydd.
12. Gall y gwasanaeth ddiweddu gyda bendith.

*Os digwydd Gwasanaeth Coffa oddi mewn i weinyddiad o'r Cymun Bendigaid, dilynr yr adrannau priodol i'r rhan honno o'r gwasanaeth.*

#### NODIADAU

Cynlluniwyd y canllawiau hyn i'w defnyddio yn yr eglwys rai wythnosau ar ôl y gwasanaeth Angladd. Darperir isod un ffordd o ychwanegu at y Drefn. Os cynhelir y gwasanaeth coffa yr un dydd â'r Angladd, neu'n fuan iawn wedyn, dylid defnyddio'r gwasanaeth Angladd, heb y traddodiant.

Dylid sicrhau ei bod yn glir pwy sy'n llywyddu gydol y gwasanaeth, pwy sy'n cyflwyno'r gwasanaeth ac yn ei ddiweddu, ac nad yw nifer y siaradwyr, yr eitemau cerddorol a'r darlenniadau heb fod o'r Beibl yn rhwystro'r gwasanaeth rhag canolbwyntio ar glywed gair Duw, gweddïo a diolch.

## **X. A MEMORIAL SERVICE**

### **AN OUTLINE ORDER FOR A MEMORIAL SERVICE**

#### **THE GATHERING**

1. The minister welcomes the people and introduces the service.
2. Sentences of scripture may be used.
3. The Collect may be said here or in the Prayers.

#### **READINGS AND SERMON**

4. One or more readings from the Bible is used.
5. Psalms or hymns may follow the readings.
6. A Sermon is preached.
7. Other songs and readings may be used, and tributes may be made.

#### **PRAYERS**

8. The prayers usually follow this sequence:  
Thanksgiving for the life of the departed.  
Prayer for those who mourn.  
Prayer for readiness to live in the light of eternity.
9. A hymn may be sung.

#### **COMMENDATION AND FAREWELL**

10. In appropriate circumstances, the dead person is commended to God with authorized words.

#### **THE DISMISSAL**

11. The Lord's Prayer is said.
12. The service may end with a blessing.

*If the Memorial Service takes place within a celebration of the Holy Eucharist, the appropriate sections are followed for that part of the service.*

#### **NOTES**

This outline order is designed for use in church several weeks after the Funeral service has taken place. One way of amplifying the Order is provided below. If the memorial service takes place on the same day as, or very soon after, the Funeral, the Funeral service should be used, without the committal.

Care should be taken to ensure that it is clear who is presiding throughout, who introduces and concludes the service, and that the number of other speakers, musical items and non-biblical readings does not unbalance the service from its focus on the word of God, prayer and thanksgiving.

## GWASANAETH COFFA: GWASANAETH ENGHREIFFTIOL

### Y DOD YNGHYD

*Y mae'r gweinidog yn croesawu'r bobl ac yn cyflwyno'r gwasanaeth.  
Gellir canu neu ddweud brawddegau o'r Ysgrythur, a gellir canu emyn.*

#### *Dywed y gweinidog*

Yr ydym yn cwrdd yn enw Iesu Grist, a fu farw ac a gyfododd er gogoniant Duw Dad. Gras a thrugaredd a fo gyda chwi.

**(A hefyd gyda thi).**

*Y mae'r gweinidog yn cyflwyno'r gwasanaeth gyda'r geiriau hyn neu eiriau addas eraill.*

Disgwylwn nid wrth y pethau a welir ond wrth y pethau nas gwelir; oherwydd byrhoedlog yw'r pethau a welir, ond y mae'r pethau nas gwelir yn dragwyddol. Daethom ynghyd heddiw i gofio gerbron Duw ein *brawd/chwaer E.*, i ddiolch am ei *f*bywyd ac i gysuro y naill y llall yn ein galar.

*Gweddi Agoriadol : Dywedir un o'r gweddiâu hyn:*

Dad nefol, diolchwn i ti am iti ein llunio ar dy ddelw dy hun a rhoddi inni ddoniau coff, meddwl ac ysbryd. Diolchwn iti yn awr am **E.** ac am yr hyn a olygai i bob un ohonom. Wrth inni anrhydeddu'r coffa amdano/*i*, gwna ni'n fwy ymwybodol mai ti yw'r un y daw oddi wrtho bob rhodd berffaith, gan gynnwys y rhodd o fywyd tragwyddol trwy Iesu Grist. **Amen.**

#### *Neu*

Dad nefol, moliannwn dy enw am bawb a orffennodd y bywyd hwn yn dy garu di ac yn ymddiried ynot, am esiempl eu bywydau, am y bywyd a'r gras a roddaist iddynt ac am y tangnefedd y maent yn gorffwyso ynddo. Molwn di heddiw am dy *was/wasanaethferch E.* ac am bopeth a wnaethost trwyddo/*i*. Tyrd i gwrdd â ni yn ein tristwch a llanw ein calonnau â moliant a diolchgarwch, er mwyn ein Harglwydd atgyfodedig, Iesu Grist. **Amen.**

## DARLLENIADAU A PHREGETH

*Gellir defnyddio'r gantigl hon:*

**Bydd gwaredigion yr Arglwydd yn dychwelyd:  
a bydd gofid a griddfan yn ffoi ymaith.**

Llawenyched yr anial a'r sychdir:  
gorfoledded y diffeithwch, a blodeuo.  
Cânt weld gogoniant yr Arglwydd:  
a mawrhydi ein Duw ni.

**Bydd gwaredigion yr Arglwydd yn dychwelyd:  
a bydd gofid a griddfan yn ffoi ymaith.**

Cadarnhewch y dwylo llesg:  
cryfhewch y gliniau gwan;

## MEMORIAL SERVICE: A SAMPLE SERVICE

### THE GATHERING

*The minister welcomes the people and introduces the service.  
Sentences of Scripture may be sung or said, and a hymn may be sung.*

*The minister says*

We meet in the name of Jesus Christ, who died and was raised to the glory of God the Father. Grace and mercy be with you.

**(and also with you).**

*The minister introduces the service in these or other suitable words.*

We look not to the things that are seen but to the things that are unseen; for the things that are seen are transient but the things that are unseen are eternal.

Today we come together to remember before God our *brother/sister N.*, to give thanks for *his/her* life and to comfort one another in our grief.

*Opening Prayer: One of these prayers is said:*

Father in heaven,

we thank you because you made us in your own image and gave us gifts in body, mind and spirit. We thank you now for **N.** and what *s/he* meant to each of us. As we honour *his/her* memory, make us more aware that you are the one from whom comes every perfect gift, including the gift of eternal life through Jesus Christ. **Amen.**

*Or*

Father in heaven, we praise your name for all who have finished this life loving and trusting you, for the example of their lives, the life and grace you gave them and the peace in which they rest. We praise you today for your servant **N.** and for all that you did through *him/her*. Meet us in our sadness and fill our hearts with praise and thanksgiving, for the sake of our risen Lord, Jesus Christ. **Amen.**

### READINGS AND SERMON

*This canticle may be used:*

**The ransomed of the Lord shall return,  
and sorrow and sighing shall flee away.**

The wilderness and the dry land shall rejoice:  
the desert shall burst into song.

They shall see the glory of the Lord:  
the majesty of our God.

**The ransomed of the Lord shall return,  
and sorrow and sighing shall flee away.**

Strengthen the weary hands:  
make firm the feeble knees.

Say to the anxious,

Dywedwch wrth y pryderus, Ymgryfhewch, nac ofnwch:  
wele, fe ddaw eich Duw mewn barn,  
fe ddaw mewn barn i'ch achub.

**Bydd gwaredigion yr Arglwydd yn dychwelyd:  
a bydd gofid a griddfan yn ffoi ymaith.**  
(Eseia 35.1,2b,3-4,10a).

*Gellir defnyddio darlenniad naill ai o'r Hen Destament neu o'r Testament Newydd.  
Ar ddiwedd y darlenniad gall y darllenydd ddweud*

Dyma air yr Arglwydd.  
**I Dduw y bo'r diolch.**

*Gellir defnyddio darlenniad o'r Testament Newydd (a all fod yn ddarlenniad o'r Efengyl).  
Pan gyhoeddir yr Efengyl dywed y darllenydd*

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant ...  
**Gogoniant i ti, O Arglwydd.**

*Ar ddiwedd y darlenniad*  
Dyma Efengyl yr Arglwydd.  
**Moliant i ti, O Grist.**

*Traddodir Pregeth.*

*Gellir defnyddio caneuon a darlenniadau heb fod o'r Beibl, a gellir rhoi teyrngedau.*

*Gellir defnyddio un o'r gweddïau hyn i gysylltu â Datgan y Ffydd neu â'r Diolchgarwch.*

Dad nefol, diolchwn iti am dy *was/wasanaethferch E..* Moliannwn di wrth inni gofio ei *f/bywyd* a mawrygu'r cof amdano/i. Bendithiwn di am iddo/i, o ddwyn dy ddelw di, ddyfod â goleuni i'n bywyd; oherwydd gwelsom yn ei *g/chyfeillgarwch* adlewyrchiad o'th dosturi, yn ei *g/onestrwydd* ddrych o'th ddaioni, ac yn ei ffyddlondeb gipolwg o'th gariad tragwyddol. Caniatâ i bob un ohonom, y rhai amddifaid a garodd, ras i ddilyn ei *h/esiempl* dda fel y delom gydag *ef/hi* i'th deyrnas dragwyddol; trwy lesu Grist ein Harglwydd, a fu farw ac a gyfododd drachefn ac a agorodd borth y gogoniant, ac y bo iddo'r moliant yn oes oesoedd.  
**Amen.**

*Neu*  
Iachawdwr hollalluog, y mae gan y sawl a fu farw mewn ffydd lawenydd bythol yn dy wyddfod. Am y rhai ohonom a adawyd, bydd gyda ni yn ein tristwch a thro ein golygon atat ti. Trwy dy farwolaeth un waith am byth ar y groes, cyfod ni i fywyd newydd, dyro inni fuddugoliaeth dros angau a hyder i edrych ymlaen at dy ddyfodiad. **Amen.**



Be strong, fear not, your God is coming with judgement:  
coming with judgement to save you.

**The ransomed of the Lord shall return,  
and sorrow and sighing shall flee away.**

*(Isaiah 35.1,2b,3-4,10a).*

*A reading from the Old or New Testament may be used.  
At the end the reader may say*

This is the word of the Lord.

**Thanks be to God.**

*A reading from the New Testament (which may be a Gospel reading) is used.  
When the Gospel is announced the reader says*

Listen to the Gospel of Christ according to Saint ...

**Glory to you, o Lord.**

*At the end*

This is the Gospel of the Lord.

**Praise to you, O Christ.**

*A Sermon is preached.*

*Songs and non-biblical readings may be used, and tributes may be made.*

*One of these prayers may be used to provide a link with the Affirmation of Faith or the  
Thanksgiving.*

Father in heaven, we give you thanks for your servant **N**. We praise you as we recollect *his/her* life and cherish *his/her* memory. We bless you that in bearing your image *s/he* has brought light to our lives; for we have seen in *his/her* friendship reflections of your compassion, in *his/her* integrity demonstrations of your goodness, in *his/her* faithfulness glimpses of your eternal love. Grant to each of us, beloved and bereft, the grace to follow *his/her* good example so that we with *him/her* may come to your everlasting kingdom; through Jesus Christ our Lord, who died and rose again and opened the gate of glory, to whom be praise for all eternity. **Amen.**

*Or*

Almighty Saviour, those who have died in faith have eternal joy in your presence.

For us who remain, be with us in our sadness and turn our eyes to you.

By your death once for all upon the cross, raise us to new life, give us victory over death and confidence to look forward to your coming. **Amen.**

## Datgan y Ffydd

*Gellir defnyddio'r Datganiad hwn o Ffydd:*

Gadewch inni ddatgan y newydd da a dderbyniasom,  
y daliwn yn gadarn ynddo,  
yr achubir ni trwyddo  
ac a draddodwn i eraill.

**Bu Crist farw dros ein pechodau ni  
yn ôl yr Ysgrythurau;  
fe'i claddwyd;  
ac fe'i hatgyfodwyd i fywyd ar y trydydd dydd  
yn ôl yr Ysgrythurau;  
wedi hynny fe ymddangosodd i'w ddilynwyr,  
ac i'r holl apostolion:  
hyn a dderbyniasom,  
a hyn yr ydym yn ei gredu. Amen.**  
(cf. I Corinthiaid 15.3-7).

## Ymbiliau

*Dywedir gweddïau addas (gweler Adran XI).*

*Gellir defnyddio'r cyflwyniad a'r ymateb a ganlyn:*

Gweddïwn mewn tangnefedd ar yr Arglwydd:  
Clyw ni, Arglwydd atgyfodedig:  
**ein hatgyfodiad a'n bywyd.**

## Gweddïau o Ddiolchgarwch

*Gellir canu emynau a dwyn tystiolaeth.*

*Gellir defnyddio'r adnodau o ganlyn neu'r cyfan o'r Te Deum.*

Ti Grist yw brenin y gogoniant:  
ti yw tragwyddol Fab y Tad.  
Pan gymeraist gnawd i'n rhyddhau ni:  
dewisaist yn wylaidd groth y Wryf.  
Gorchfygaist golyn angau:  
ac agor teyrnas nef i bawb sy'n credu.  
Yr wyt yn eistedd ar ddeheulaw Duw mewn gogoniant:  
yr ydym yn credu y deui di i'n barnu.  
Tyrd, felly, O Arglwydd, a chynorthwya dy bobl:  
a brynwyd â'th waed dy hun;  
A dwg ni gyda'th saint:  
i'r gogoniant tragwyddol.

*Gellir defnyddio un neu ragor o'r gweddïau hyn o ddiolchgarwch.*

Teilwng wyt ti, ein Harglwydd a'n Duw:  
i dderbyn y gogoniant a'r anrhydedd a'r gallu,  
**Oherwydd tydi a greodd bob peth:  
a thrwy dy ewyllys y daethant i fod ac y crewyd hwy.**

### **Affirmation of Faith**

*This Affirmation of Faith may be used:*

Let us affirm the good news we have received,  
in which we stand,  
through which we are saved  
and which we hand on to others.

**Christ died for our sins  
in accordance with the scriptures;  
he was buried;  
he was raised to life on the third day  
in accordance with the scriptures;  
afterwards he appeared to his followers,  
and to all the apostles:  
this we have received,  
and this we believe. Amen.**

*(cf. I Corinthians 15.3-7).*

### **Prayers of Intercession**

*Suitable prayers are said (see Section XI).*

*This introduction and response may be used:*

In peace let us pray to the Lord, using the response:  
Hear us risen Lord: **our resurrection and our life.**

### **Prayers of Thanksgiving**

*Hymns may be sung and testimony given.*

*Either the whole of, or these verses from, the Te Deum may be used.*

You Christ are the King of glory:  
the eternal Son of the Father.  
When you took our flesh to set us free:  
you humbly chose the Virgin's womb.  
You overcame the sting of death:  
and opened the kingdom of heaven to all believers.  
You are seated at God's right hand in glory:  
we believe that you will come and be our judge.  
Come then, Lord, and help your people:  
bought with the price of your own blood.  
And bring us with your saints:  
to glory everlasting.

*One or more of these thanksgivings may be used.*

You are worthy, O Lord our God:  
to receive glory and honour and power .  
**For you created all things:  
and by your will they have their being.**

Teilwng wyt ti, yr Oen a laddwyd:  
ac a brynaist i Dduw â'th waed:  
rai o bob llwyth ac iaith a phobl a chenedl.

**Gwnaethost hwy yn urdd frenhinol  
i sefyll gerbron ein Duw ac i'w wasanaethu:  
ac fe deyrnasant gyda thi ar y ddaear.  
Iddo ef sy'n eistedd ar yr orsedd ac i'r Oen:  
y byddo'r moliant a'r gogoniant a'r gallu  
byth bythoedd. Amen.**

*Neu*

Dad hollalluog, rhoddwn i ti ddiolch a moliant  
am iti anfon dy Fab i farw, a'i atgyfodi o blith y meirw.  
Molwn di yn llawn hyder dy fod yn achub dy holl bobl,  
y byw a'r meirw.  
Arglwydd, clyw ni: **yn rasol, clyw ni, O Arglwydd.**

Diolchwn iti am **E.**,  
yr addawyd iddo/i yn ei f/bedydd fywyd tragwyddol  
ac sydd yn awr yng nghwmni'r saint.  
Arglwydd, clyw ni: **yn rasol, clyw ni, O Arglwydd.**

Diolchwn iti am ein *brawd/chwaer*, a fu'n cyfranogi o fara'r bywyd,  
rhagflas o'r wledd dragwyddol yn y nefoedd.  
Arglwydd, clyw ni: **yn rasol, clyw ni, O Arglwydd.**

Diolchwn iti am ein holl berthnasau a chyfeillion  
ac am bawb a fu'n gymorth inni,  
sy'n mwynhau'r wobr am eu daioni.  
Arglwydd, clyw ni: **yn rasol, clyw ni, O Arglwydd.**

Gweddiwn ar i deulu a chyfeillion ein *brawd/chwaer E.*  
dderbyn yn eu galar ddiddanwch yr Arglwydd,  
a wylodd ar farwolaeth Lasarus, ei ffrind.  
Arglwydd, clyw ni: **yn rasol, clyw ni, O Arglwydd.**

Gweddiwn dros bawb ohonom sydd wedi ymgynnull yma  
i addoli mewn ffydd,  
ar inni gael ein cynnull ynghyd drachefn yn nheyrnas Dduw.  
Arglwydd, clyw ni: **yn rasol, clyw ni, O Arglwydd.**

*Neu*

Arglwydd Dduw, creawdwr pob peth,  
gwnaethost ni yn greaduriaid y ddaear hon,  
ond addewaist inni hefyd ran yn y bywyd tragwyddol.  
Yn unol â'th addewidion,  
bydded i bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist  
gael cyfranogi gyda'th saint yn llawenydd y nefoedd,  
lle nad oes na galar na phoen  
ond bywyd hyd byth.  
**Alelwia ! Amen.**

You are worthy, O Lamb, for you were slain:  
and by your blood you bought for God  
people of every tribe and language, nation and grace.

**You have made them a kingdom of priests,  
to stand and serve before our God:  
and they will reign with you on earth.  
To him who sits on the throne and to the lamb:  
be praise and honour, glory and might,  
for ever and ever, Amen.**

*Or*

We give you thanks and praise, almighty Father,  
that you sent your Son to die, and raised him from the dead.  
We praise you in the confidence that you save all your people,  
living and dead.  
Lord, hear us: **Lord, graciously hear us.**

We thank you for **N.**,  
who in baptism was given the pledge of eternal life  
and is now admitted to the company of the saints.  
Lord, hear us: **Lord, graciously hear us.**

We thank you for our *brother/sister* who shared the bread of life,  
a foretaste of the eternal banquet of heaven.  
Lord, hear us: **Lord, graciously hear us.**

We thank you for our relatives and friends  
and for all who have helped us,  
who enjoy the reward of their goodness.  
Lord, hear us: **Lord, graciously hear us.**

We pray that the family and friends of our *brother/sister N.*  
may be consoled in their grief by the Lord,  
who wept at the death of Lazarus his friend.  
Lord, hear us: **Lord, graciously hear us.**

We pray for all of us assembled here to worship in faith,  
that we may be gathered together again in God's kingdom.  
Lord, hear us: **Lord, graciously hear us.**

*Or*

Lord God, creator of all,  
you have made us creatures of this earth,  
but have also promised us a share in life eternal.  
According to your promises,  
may all who have died in the peace of Christ  
share with your saints in the joy of heaven,  
where there is neither sorrow nor pain  
but life everlasting.  
**Alleluia ! Amen.**

*Oni weinyddir y Cymun:*

Gweddïwn yn hyderus ar y Tad:

**Ein Tad yn y nefoedd ...**

*Neu*

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddïwn yn hyderus:

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd ...**

## Y CYFLWYNIANT

Hollalluog Dduw,  
yn dy gariad mawr  
lluniaist ni â'th ddwylo  
ac anadlu inni fywyd trwy dy Ysbryd.  
Er inni fod yn bobl wrthryfelgar,  
ni chefnaist arnom yn ein pechod.  
O'th dyner drugaredd  
anfonaist dy Fab  
i'n hadfer ar dy ddelw.  
Mewn ufudd-dod i'th ewyllys  
rhoes ef ei fywyd drosom,  
a dwyn yn ei gorff ein pechodau ar y groes.  
Trwy dy allu nerthol  
cyfodaist ef o'r bedd  
a'i ddyrchafu i orsedd y gogoniant.  
Gan ymlawenhau yn ei fuddugoliaeth  
a chan ymddiried yn dy addewid  
i fywhau pawb sy'n troi at Grist,  
cyflwynwn **E.** i'th drugaredd,  
ac ymunwn â'th holl bobl ffyddlon  
ac â holl gwmpeini'r nef  
yn yr un gân dragwyddol o foliant:  
**Y fendith a'r anrhydedd,  
y gogoniant a'r gallu  
a fo i ti, yn oes oesoedd. Amen.**

## YR ANFON ALLAN

*Y Tangnefedd*

Dywedodd Iesu: Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; yr wyf yn rhoi i chwi fy nhangnefedd i fy hun. Nid fel y mae'r byd yn rhoi yr wyf fi'n rhoi i chwi. Peidiwch â gadael i ddim gynhyrfu'ch calon, a pheidiwch ag ofni. Tangnefedd y Crist atgyfodedig a fyddo bob amser gyda chwi:  
**A hefyd gyda thi.**

*If the Eucharist is not celebrated:*

Let us pray with confidence to the Father:

**Our Father in heaven ...**

*Or*

As our Saviour taught us, we boldly pray:

**Our Father who art in heaven ...**

## THE COMMENDATION

Almighty God,  
in your great love  
you crafted us by your hand  
and breathed life into us by your Spirit.  
Although we became a rebellious people,  
you did not abandon us to our sin.  
In your tender mercy  
you sent your Son  
to restore us in your image.  
In obedience to your will  
he gave up his life for us,  
bearing in his body our sins on the cross.  
By your mighty power  
you raised him from the grave  
and exalted him to the throne of glory.  
Rejoicing in his victory  
and trusting in your promise  
to make alive all who turn to Christ,  
we commend **N.** to your mercy  
and we join with all your faithful people  
and the whole company of heaven  
in the one unending song of praise:  
**Blessing and honour  
and glory and power  
be yours, for ever and ever. Amen.**

## THE SENDING OUT

*The Peace*

Jesus said: Peace I leave with you. My peace I give to you. Not as the world gives give I unto you. Do not let your hearts be troubled, neither let them be afraid.

The peace of the risen Christ be always be with you.

**And also with you.**

## DIWEDDGLO

Ni all nac einioes nac angau  
ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw  
yn Iesu Grist ein Harglwydd.

Caniatâ i ni, O Arglwydd Dduw, ymddiried ynot  
nid er ein mwyn ein hunain yn unig,  
ond hefyd er mwyn y rhai a garwn  
ac a guddiwyd rhagom gan gysgod angau,  
fel, a ninnau'n credu i ti yn dy allu  
gyfodi ein Harglwydd Iesu Grist o blith y meirw,  
y bo inni felly ymddiried y bydd i'th gariad  
roddi bywyd tragwyddol i bawb sy'n credu ynddo ef;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,  
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn awr a hyd byth. **Amen.**

Bydded i Dduw tangnefedd,  
a ddug yn ôl oddi wrth y meirw ein Harglwydd Iesu,  
fugail mawr y defaid,  
eich perffeithio ym mhob daioni i wneud ei ewylllys;  
a bendith Duw hollalluog,  
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,  
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

## **XI. GWEDDÏAU MEWN GWASANAETHAU ANGLADD A GWASANAETHAU COFFA**

Y mae'r gweddïau hyn yn dilyn trefn y gwasanaethau, o'r Dyfod Ynghyd hyd ar ôl yr Angladd.

*Gweddïau wrth Ddyfod Ynghyd*

*Gweddïau o Edifeirwch (Kyriau a Gollyngdod)*

*Colectau ar gyfer Gwasanaethau Angladd a Gwasanaethau Coffa*

*Diolchgarwch am Fywyd yr Ymadawedig*

*Gweddïau dros y rhai sy'n Galaru*

*Gweddïau am Barodrwydd i Fyw yng Ngoleuni Tragwyddoldeb*

*Litaniâu a Gweddïau Ymatebol*

*Gweddïau Ymddiried a Chyflwyno*

*Bendithion a Diweddiadau Eraill*

*Gweddïau i'w defnyddio ar ôl Salmu*

*Y mae gweddïau addas eraill yn adrannau II - V (Cyn yr Angladd) a IX (Ar ôl yr Angladd).*

*Y mae gweddïau addas ar gyfer angladd plentyn yn adran VIII.*



## CONCLUSION

Neither death nor life  
can separate us from the love of God  
in Jesus Christ our Lord.

Grant to us, Lord God,  
to trust you not for ourselves alone,  
but also for those whom we love  
and who are hidden from us by the shadow of death;  
that, as we believe your power  
to have raised our Lord Jesus Christ from the dead,  
so may we trust your love  
to give eternal life to all who believe in him;  
through Jesus Christ our Lord,  
who is alive and reigns with you and the Holy Spirit,  
one God, now and for ever. **Amen.**

The God of peace,  
who brought again from the dead our Lord Jesus,  
that great shepherd of the sheep,  
make you perfect in every good work to do his will;  
and the blessing of God almighty,  
the Father, the Son, and the Holy Spirit,  
be among you and remain with you always. **Amen.**

## XI. PRAYERS AT FUNERAL & MEMORIAL SERVICES

These prayers reflect the sequence found in the services, from the time of gathering until after the Funeral.

*Gathering Prayers.*

*Prayers of Penitence (Kyries and Absolutions).*

*Collects for Funeral and Memorial Services.*

*Thanksgiving for the Life of the Departed.*

*Prayers for those who Mourn.*

*Prayers for Readiness to Live in the Light of Eternity.*

*Litanies and Responsive Prayers.*

*Prayers of Entrusting and Commending.*

*Blessings and other Endings.*

*Prayers for Use after Psalms.*

*Other suitable prayers may be found in sections II - V  
(Before the Funeral) and IX (After the Funeral).*

*Prayers suitable for a child may be found in section VIII.*

## GWEDDĪAU WRTH DDYFOD YNGHYD

1.

O Dduw ein noddod a'n nerth,  
yr wyt yn agos atom yn ein trallod;  
tyrd i gwrdd â ni yn ein galar a dyrchafa ein llygaid  
at dangnefedd a goleuni dy ofal gwastadol drosom.  
Cynorthwya ni felly i glywed geiriau dy ras  
fel y diddyma dy gariad ein hofn,  
yr esmwytha dy bresenoldeb ein hunigrwydd  
ac yr adnewyddda dy addewidion ein gobaith  
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

2.

Dad grasol,  
cynorthwya ni  
mewn tywyllwch a goleuni,  
mewn trallod a llawenydd  
i ymddiried yn dy gariad,  
i wasanaethu dy bwrpas  
ac i foliannu dy enw;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

3.

Dad nefol,  
fe'n gwnaethost nid i dywyllwch a marwolaeth,  
ond i fyw gyda thi am byth.  
Hebot nid oes gennym ddim i obeithio amdano;  
gyda thi, nid oes gennym ddim i'w ofni.  
Llefara wrthym yn awr eiriau dy fywyd tragwyddol.  
Cyfod ni o boen meddwl ac euogrwydd  
i oleuni a thangnefedd dy bresenoldeb,  
a gosod ogoniant dy gariad o'n blaen;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.  
**Amen.**

## GWEDDĪAU O EDIFEIRWCH

*Kyriau*

4.

Cofia, Arglwydd, dy drugaredd a'th ffyddlondeb,  
oherwydd y maent erioed.  
Arglwydd, trugarha. **(Arglwydd, trugarha.)**

Paid â chofio pechodau fy ieuencid na'm gwrthryfel,  
ond yn dy gariad cofia fi,  
er mwyn dy ddaioni, O Arglwydd.  
Crist, trugarha. **(Crist, trugarha.)**

Cadw fi a gwared fi;  
na ddoed cywilydd arnaf, oherwydd ynot ti yr wyf yn llochesu.  
Arglwydd, trugarha. **(Arglwydd, trugarha.)**

GATHERING PRAYERS.

1.

God our refuge and strength,  
close at hand in our distress;  
meet us in our sorrow and lift our eyes  
to the peace and light of your constant care.  
Help us so to hear the word of your grace  
that our fear will be dispelled by your love,  
our loneliness eased by your presence  
and our hope renewed by your promises  
in Jesus Christ our Lord. **Amen.**

2.

Gracious Father,  
in darkness and light,  
in trouble and in joy,  
help us to trust your love,  
to serve your purpose  
and to praise your name;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

3.

Heavenly Father,  
you have not made us for darkness and death,  
but for life with you for ever.  
Without you we have nothing to hope for;  
with you we have nothing to fear.  
Speak to us now your words of eternal life.  
Lift us from anxiety and guilt  
to the light and peace of your presence,  
and set the glory of your love before us;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

PRAYERS OF PENITENCE.

*Kyries.*

4.

Remember, Lord, your compassion and love,  
for they are everlasting.  
Lord, have mercy. **(Lord, have mercy.)**

Remember not the sins of my youth or my transgressions,  
but think on me in your goodness, O Lord,  
according to your steadfast love.  
Christ, have mercy. **(Christ, have mercy.)**

O keep my soul and deliver me;  
let me not be put to shame, for I have put my trust in you.  
Lord, have mercy. **(Lord, have mercy.)**

5.

Arglwydd Iesu, dangosaist inni'r ffordd at y Tad:  
Arglwydd, trugarha. **(Arglwydd, trugarha.)**

Arglwydd Iesu, y mae dy air yn oleuni i'n llwybr:  
Crist, trugarha. **(Crist, trugarha.)**

Arglwydd Iesu, ti yw'r bugail da  
sy'n ein tywys i fywyd tragwyddol:  
Arglwydd, trugarha. **(Arglwydd, trugarha.)**

6.

Fy enaid, bendithia'r Arglwydd,  
a phaid ag anghofio'i holl ddoniau:  
Arglwydd, trugarha. **(Arglwydd, trugarha.)**

Ef sy'n maddau dy holl gamweddau,  
yn iacháu dy holl afiechyd:  
Crist, trugarha. **(Crist, trugarha.)**

Ef sy'n gwaredu dy fywyd o'r pwll,  
ac yn dy goroni â chariad a thrugaredd. **(Arglwydd, trugarha.)**

7.

O'r dyfnderau y gwaeddais arnat, O Arglwydd.  
Arglwydd, clyw fy llef.  
Arglwydd, trugarha. **(Arglwydd, trugarha.)**

Os wyt yn cadw cyfrif o gamweddau,  
pwy, O Arglwydd, a all sefyll?  
Crist, trugarha. **(Crist, trugarha.)**

Gobeithia yn yr Arglwydd,  
oherwydd gyda'r Arglwydd y mae ffyddlondeb,  
a chydag ef y mae gwaredigaeth helaeth.  
Arglwydd, trugarha. **(Arglwydd, trugarha.)**

### *Gollyngdod*

8.

Bydded i Dduw cariad  
ein dwyn yn ôl ato ef ei hun,  
maddau inni ein pechodau  
a rhoddi inni sicrwydd o'i gariad tragwyddol  
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

9.

Bydded i Dduw Dad faddau inni ein pechodau  
a'n dwyn i gymdeithas ei fwrdd  
gyda'i saint am byth. **Amen.**

5.

Lord Jesus, you have shown us the way to the Father:  
Lord, have mercy. **(Lord, have mercy.)**

Lord Jesus, your word is a light to our path:  
Christ, have mercy. **(Christ, have mercy.)**

Lord Jesus, you are the good shepherd,  
leading us into everlasting life:  
Lord, have mercy. **(Lord, have mercy.)**

6.

Praise the Lord, O my soul,  
and forget not all his benefits:  
Lord, have mercy. **(Lord, have mercy.)**

Who forgives all your sin  
and heals all your infirmities:  
Christ, have mercy. **(Christ, have mercy.)**

Who saves your life from destruction  
and crowns you with mercy and loving-kindness:  
Lord, have mercy. **(Lord, have mercy.)**

7.

Out of the depths I cry to you:  
Lord, hear my voice.  
Lord, have mercy. **(Lord, have mercy.)**

If you should mark what is done amiss:  
who may abide it?  
Christ, have mercy. **(Christ, have mercy.)**

Trust in the Lord, for with him there is mercy:  
for with him is ample redemption.  
Lord, have mercy. **(Lord, have mercy.)**

*Absolutions.*

8.

May the God of love  
bring us back to himself,  
forgive us our sins  
and assure us of his eternal love  
in Jesus Christ our Lord. **Amen.**

9.

May God our Father forgive us our sins  
and bring us to the fellowship of his table  
with his saints for ever. **Amen.**

COLECTAU AR GYFER GWASANAETHAU ANGLADD A GWASANAETHAU COFFA

10.

Dad trugarog,  
clyw ein gweddïau a chysura ni;  
adnewyddu ein gobaith yn dy Fab,  
a gyfodaist o blith y meirw;  
cryfha ein ffydd  
y caiff (**E.** a phawb) pawb a fu farw yng nghariad Crist  
rannu ei atgyfodiad ef  
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,  
yn awr a byth. **Amen.**

11.

Dduw tragwyddol, ein crëwr a'n prynwr,  
caniatâ i ni gyda (**E.** a) phawb o'r ffyddloniaid ymadawedig  
ddiogel fuddiannau dioddefaint achubol dy Fab  
a'i atgyfodiad gogoneddus;  
fel, yn y dydd olaf,  
pan gesgli ynghyd bob peth yng Nghrist,  
y caffom fwynhau gyda hwy gyflawnder dy addewidion;  
trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd,  
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi,  
yn undod yr Ysbryd Glân,  
yn un Duw, yn awr a hyd byth. **Amen.**

DIOLCH AM FYWYD YR YMADAWEDIG

12.

Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist,  
a'n bendithiodd â'r rhodd o fywyd ar y ddaear hon  
ac a roddodd i'n *brawd/chwaer* **E.**  
rychwant ei *f/blynyddoedd* a doniau ei *g/chymeriad*.  
O Dduw ein Tad, diolchwn iti yn awr am ei *f/bywyd*,  
am bob atgof o gariad a llawenydd,  
am bob gweithred dda a wnaeth  
ac am bob galar a rannodd â ni.  
Diolchwn iti am ei *f/bywyd* ac am ei *f/marwolaeth*,  
diolchwn iti am yr orffwysfa yng Nghrist y mae'n awr yn ei mwynhau,  
diolchwn iti am ei *r/rhoi hi/ef* inni,  
diolchwn iti am y gogoniant y byddwn yn ei rannu â'n gilydd.  
Clyw ein gweddïau trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

13.

Drugarog Dad, Arglwydd pob bywyd,  
molwn di am iti ein llunio ar dy ddelw  
i adlewyrchu dy wirionedd a'th oleuni.  
Diolchwn iti am fywyd dy blentyn **E.**,  
am y cariad a dderbyniodd gennyt  
ac a ddangosodd yn ein plith.  
Uwchlaw pob dim, llawenhawn yn dy addewid rasol

COLLECTS FOR FUNERAL AND MEMORIAL SERVICES

10.

Merciful Father,  
hear our prayers and comfort us;  
renew our trust in your Son,  
whom you raised from the dead;  
strengthen our faith  
that (**N. and**) all who have died in the love of Christ  
will share in his resurrection;  
who lives and reigns with you,  
now and for ever. **Amen.**

11.

Eternal God, our maker and redeemer,  
grant us (*with N.*) and all the faithful departed  
the sure benefits of your Son's saving passion  
and glorious resurrection;  
that, in the last day,  
when you gather up all things in Christ,  
we may with them enjoy the fullness of your promises;  
through Jesus Christ your Son our Lord,  
who is alive and reigns with you,  
in the unity of the Holy Spirit,  
one God, now and for ever. **Amen.**

THANKSGIVING FOR THE LIFE OF THE DEPARTED.

12.

Blessed be the God and Father of our Lord Jesus Christ,  
who has blessed us all with the gift of this earthly life  
and has given to our *brother/sister N.*  
*his/her* span of years and gifts of character.  
God our Father, we thank you now for *his/her* life,  
for every memory of love and joy,  
for every good deed done by *him/her*  
and every sorrow shared with us.  
We thank you for *his/her* life and for *his/her* death,  
we thank you for the rest in Christ *s/he* now enjoys,  
we thank you for giving *him/her* to us,  
we thank you for the glory we shall share together.  
Hear our prayers through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

13.

Merciful Father and Lord of all life,  
we praise you that we are made in your image  
and reflect your truth and light.  
We thank you for the life of your child **N.**,  
for the love *s/he* received from you  
and showed among us.  
Above all, we rejoice at your gracious promise

i'th holl wasanaethyddion, y byw a'r meirw,  
y cyfodwn eto ar ddyfodiad Crist;  
a gofynnwn am i ninnau, yng nghyflawnder yr amser,  
gael rhannu â'n *brawd/chwaer* yn y weledigaeth eglur honno  
pan welwn wyneb yn wyneb yr un Crist ein Harglwydd. **Amen.**

14.

Arglwydd pob peth, moliannwn di  
am bawb a roddwyd i orffwys  
ac a gyrhaeddodd dir yr addewid lle y gwelir di wyneb yn wyneb.  
Dyro inni ras i ddilyn ôl eu traed  
fel y dilynasant hwy ôl traed dy Fab.  
Diolch iti am bob atgof am y rhai a elwaist atat:  
ym mhob atgof  
tro ein calonnau oddi wrth y pethau a welir at y pethau nas gwelir,  
ac arwain ni nes deurn i'r orffwysfa dragwyddol  
a baratoaist i'th bobl  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

15.

Dad nefol, moliannwn dy enw  
am bawb a orffennodd y bywyd hwn  
yn dy garu di ac yn ymddiried ynot,  
am esiampyl eu bywydau,  
am y bywyd a'r gras a roddaist ti iddynt,  
ac am y tangnefedd y maent yn gorffwysu ynddo.  
Molwn di heddiw am dy *was/wasanaethferch E.*  
ac am y cyfan a wnaethost trwyddo/i.  
Tyrd i gwrdd â ni yn ein tristwch  
a llanw ein calonnau â moliant a diolchgarwch,  
er mwyn ein Harglwydd atgyfodedig, Iesu Grist. **Amen.**

16.

Dad nefol,  
diolchwn i ti am iti ein llunio ar dy ddelw dy hun  
a rhoddi inni ddoniau corff, meddwl ac ysbryd.  
Diolchwn iti yn awr am **E.**  
ac am yr hyn a olygai i bob un ohonom.  
Wrth inni anrhydeddu'r coffa amdano/i,  
gwna ni'n fwy ymwybodol mai ti yw'r un  
y daw oddi wrtho bob rhodd berffaith,  
gan gynnwys y rhodd o fywyd tragwyddol trwy Iesu Grist. **Amen.**

17.

O Dduw ein Tad,  
diolchwn iti am lunio pob un ohonom ar dy ddelw dy hun,  
a rhoddi inni ddoniau a thalentau i'th wasanaethu di.  
Diolchwn iti am **E.**,  
am y blynyddoedd a ranasom *ag ef/ â hi*,  
am y daioni a welsom ynddo/i,  
ac am y cariad a dderbyniasom ganddo/i.



to all your servants, living and departed,  
that we shall rise again at the coming of Christ.  
And we ask that in due time  
we may share with our *brother/sister* that clearer vision,  
when we shall see your face in the same Christ our Lord. **Amen.**

14.

Lord of all, we praise you  
for all who have entered into their rest  
and reached the promised land where you are seen face to face.  
Give us grace to follow in their footsteps  
as they followed in the way of your Son.  
Thank you for the memory of those you have called to yourself:  
by each memory,  
turn our hearts from things seen to things unseen,  
and lead us till we come to the eternal rest  
you have prepared for your people  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

15.

Father in heaven, we praise your name  
for all who have finished this life loving and trusting you,  
for the example of their lives,  
the life and grace you gave them,  
and the peace in which they rest.  
We praise you today for your servant **N.**  
and for all that you did through *him/her*.  
Meet us in our sadness  
and fill our hearts with praise and thanksgiving,  
for the sake of our risen Lord, Jesus Christ. **Amen.**

16.

Father in heaven,  
we thank you because you made us in your own image  
and gave us gifts in mind, body and spirit.  
We thank you now for **N.**  
and what *s/he* meant to each of us.  
As we honour *his/her* memory,  
make us more aware that you are the one  
from whom comes every perfect gift,  
including the gift of eternal life through Jesus Christ. **Amen.**

17.

God our Father,  
we thank you that you have made each of us in your own image,  
and given us gifts and talents with which to serve you.  
We thank you for **N.**,  
the years we shared with *him/her*,  
the good we saw in *him/her*,  
the love we received from *him/her*.  
Now give us strength and courage

Dyro inni yn awr y nerth a'r dewrder  
i'w g/adael yn dy ofal di,  
yn llawn hyder yn dy addewid o fywyd tragwyddol  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

18.

Dduw a Thad tragwyddol,  
molwn di am iti lunio pobl i rannu bywyd â'i gilydd  
ac i adlewyrchu dy ogoniant yn y byd.  
Diolchwn iti yn awr am **E.**  
am y cyfan a welsom o'th ddaioni di yn ei f/bywyd  
ac am y cyfan a olygai i bob un ohonom.  
Wrth i ninnau deithio at farwolaeth  
bydded inni wneud hynny yng nghwmni Iesu,  
a ddaeth i rannu ein bywyd  
fel y rhannem ninnau yn y bywyd tragwyddol.  
Iddo ef, gyda thi a'r Ysbryd Glân,  
y bo'r gogoniant  
yn oes oesoedd. **Amen.**

19.

Arglwydd Dduw, creawdwr pob peth,  
gwnaethost ni yn greaduriaid y ddaear hon,  
ond addewaist inni hefyd ran yn y bywyd tragwyddol:  
derbyn yn awr ein diolch a'n moliant  
am fod dy blentyn, ein *brawd/chwaer*, **E.**,  
yr ydym yn ei g/chyflwyno heddiw i'th ddwylo,  
yn cyfranogi gyda'th saint yn llawenydd y nefoedd,  
lle nad oes na galar na phoen  
ond bywyd hyd byth. **Alelwia! Amen.**

20.

Hollalluog Dduw,  
yr wyt yn caru pob peth a wnaethost  
ac yn ein barnu â thrugaredd a chyfiawnder diderfyn.  
Llawenhawn yn dy addewidion o faddeuant  
a llawenydd a thangnefedd i bawb sy'n dy garu.  
Yn dy drugaredd tro dywyllwch marwolaeth  
yn wawr bywyd newydd  
a galar y gwahanu yn llawenydd y nefoedd;  
trwy ein Hiachawdwr Iesu Grist,  
a fu farw ac a gyfododd drachefn ac sy'n byw byth mwy. **Amen.**

21.

Hollalluog Dduw,  
deuwn atat ti, y barnwr goruchaf,  
ac at Iesu, cyfryngwr y cyfamod newydd,  
ac at ysbrydoedd y cyfiawn a berffeithiwyd;  
diolchwn iti am roddi inni deyrnas ddi-sigl  
ac addolwn di gyda pharchedig ofn,  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

to leave him/her in your care,  
confident in your promise of eternal life  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

18.

Eternal God and Father,  
we praise you that you have made people to share life together  
and to reflect your glory in the world.  
We thank you now for **N.**,  
for all that we saw of your goodness and love in *his/her* life  
and for all that *s/he* means to each one of us.  
As we too journey towards death  
may we do so in the company of Jesus,  
who came to share our life  
that we might share the life of eternity.  
To him be glory with you and the Holy Spirit  
for ever and ever. **Amen.**

19.

Lord God, creator of all,  
you have made us creatures of this earth  
but have also promised us a share in life eternal:  
receive our thanks and praise  
that, through the passion and death of Christ,  
your child **N.**, our *brother/sister*,  
whom we commend into your hands today,  
shares with your saints in the joy of heaven,  
where there is neither sorrow nor pain  
but life everlasting. Alleluia! **Amen.**

20.

Almighty God,  
you love everything you have made,  
and judge us with infinite mercy and justice.  
We rejoice in your promises of pardon, joy and peace  
to all those who love you.  
In your mercy  
turn the darkness of death into the dawn of new life,  
and the sorrow of parting into the joy of heaven;  
through our Saviour Jesus Christ,  
who died, rose again, and lives for evermore. **Amen.**

21.

Almighty God,  
we come before you, the supreme judge,  
and to Jesus, the mediator of the new covenant,  
and to the spirits of the righteous made perfect;  
we give you thanks for giving us an unshakeable kingdom  
and we worship you in reverence and awe,  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

## GWEDDĪAU DROS Y RHAI SY'N GALARU

22.

Dduw pob trugaredd,  
a ninnau'n galaru am farw **E.**,  
ac yn diolch iti am ei *f/bywyd*,  
yr ydym hefyd yn cofio amseroedd  
pan oedd yn anodd inni ddeall  
a maddau, a derbyn maddeuant.  
Iachâ ein hatgofion o ddolur a methiant,  
a dwg ni i faddeuant a bywyd  
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

23.

Arglwydd Iesu Grist,  
cysuraist dy ddisgyblion pan oeddit yn mynd i farw:  
tawela yn awr ein calonnau trallodus  
ac ymlid ymaith ein hofnau.  
Ti yw'r ffordd at y Tad:  
cynorthwya ni i'th ddilyn.  
Ti yw'r gwirionedd:  
dwc ni i'th adnabod.  
Ti yw'r bywyd:  
dyro inni'r bywyd hwnnw,  
byw gyda thi yn awr a byth. **Amen.**

24.

O Dduw, a'n dug ni i'n genedigaeth,  
ac y byddwn farw yn dy freichiau,  
cynnal a chysura ni  
yn ein galar a'n braw:  
cofleidia ni â'th gariad,  
dyro inni obaith yn ein dryswch  
a gras i ildio i fywyd newydd;  
trwy Iesu Grist. **Amen.**

25.

O Dad, yr wyt yn adnabod ein calonnau ac yn rhannu ein gofidiau.  
Cawsom ein brifo o'n gwahanu oddi wrth **E.** yr oeddem yn ei *g/charu*:  
a ninnau'n ddicllon oherwydd ein colled,  
ac yn dyheu am eiriau o gysur,  
ond yn ei chael hi'n anodd eu clywed,  
tro ein galar yn gywirach buchedd,  
a'n cystudd yn obaith cadarn  
yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

26.

Dduw grasol,  
amgylchyna ni a phawb sy'n galaru y dydd hwn  
â'th dosturi gwastadol.  
Na ad i alar lethu dy blant

PRAYERS FOR THOSE WHO MOURN.

22.

God of mercy,  
as we mourn the death of **N.**,  
and thank you for *his/her* life,  
we also remember times when it was hard for us to understand,  
to forgive, and to be forgiven.  
Heal our memories of hurt and failure,  
and bring us to forgiveness and life  
in Jesus Christ our Lord. **Amen.**

23.

llanwed llawenydd yr Arglwydd Iesu eich calonnau;  
a bendith Duw hollalluog,  
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,  
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

77.

Bydded i'r Drindod dragwyddol a gogoneddus,  
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,  
gyfarwyddo ein bywyd mewn gweithredoedd da,  
a rhoddi inni, ar derfyn ein taith trwy'r byd hwn,  
orffwysfa dragwyddol gyda'r saint. **Amen.**

78.

Bydded i'r Arglwydd Dduw hollalluog,  
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân,  
y Drindod sanctaidd a diwahân,  
ein gwarchod a'n hachub,  
a'n dwyn i'r ddinas nefol honno  
lle y mae'n byw ac yn teyrnasu byth bythoedd. **Amen.**

79.

Yr Arglwydd Dduw hollalluog yw ein Tad:  
**y mae'n ein caru ac yn gofalu'n dyner amdanom.**  
Yr Arglwydd Iesu Grist yw ein Gwardwr:  
**fe'n prynodd ac fe'n hamddiffyn hyd y diwedd.**  
Y mae'r Arglwydd, yr Ysbryd Glân, yn ein plith:  
**fe'n tywys yn ffordd sanctaidd Duw.**  
I Dduw hollalluog, Dad, Mab ac Ysbryd Glân:  
**y bo'r moliant a'r gogoniant heddiw ac am byth. Amen.**

GWEDDIAU I'W DEFNYDDIO AR ÔL SALMAU

*I'w defnyddio ar ôl Salm 6:*

Arglwydd, pylodd ein llygaid gan ofid,  
gwyddost ein bod yn diffygio gan ein cwynfan.  
Wrth inni gofio am ein marwolaeth  
yng ngwacter tywyll y nos,  
trugarha wrthym ac iachâ ni;  
maddau inni a dwg ymaith ein hofn  
trwy farwolaeth ac atgyfodiad Iesu dy Fab. **Amen.**

FOR A MEMORIAL SERVICE

76.

The love of the Lord Jesus draw you to himself,  
the power of the Lord Jesus strengthen you in his service,  
the joy of the Lord Jesus fill your hearts;  
and the blessing of God almighty,  
the Father, the Son, and the Holy Spirit,  
be among you and remain with you always. **Amen.**

77.

May the infinite and glorious Trinity,  
the Father, the Son, and the Holy Spirit,  
direct our life in good works,  
and after our journey through this world,  
grant us eternal rest with the saints. **Amen.**

78.

The Lord God almighty,  
Father, Son, and Holy Spirit,  
the holy and undivided Trinity,  
guard us, save us,  
and bring us to that heavenly city  
where he lives and reigns for ever and ever. **Amen.**

79.

The Lord God almighty is our Father:  
**he loves us and tenderly cares for us.**  
The Lord Jesus Christ is our Saviour:  
**he has redeemed us and will defend us to the end.**  
The Lord, the Holy Spirit is among us:  
**he will lead us in God's holy way.**  
To God almighty, Father, Son, and Holy Spirit,  
**be praise and glory today and for ever. Amen.**

PRAYERS FOR USE AFTER PSALMS

*For use after Psalm 6:*

Our eyes, Lord, are wasted with grief;  
you know we are weary with groaning.  
As we remember our death  
in the dark emptiness of the night,  
have mercy on us and heal us;  
forgive us and take away our fear  
through the dying and rising of Jesus your Son. **Amen.**

*I'w defnyddio ar ôl Salm 32:*

Arglwydd, ein cysgod mewn cyfyngder,  
dygi ein heuogrwydd i gof.  
Y mae dy law yn drwm arnom;  
y mae ein tafodau yn sych  
ac yr ydym yn cyffesu yn agored ein heuogrwydd.  
Cofleidia ni â'th drugaredd.  
Dysg ni i ymddiried ynot,  
a dwg ni yn y diwedd  
i lawenhau yn dy wyddfod am byth. **Amen.**

*I'w defnyddio ar ôl Salm 38:*

Arglwydd, trugarha  
wrth y rhai sy'n galaru drwy'r dydd,  
y rhai a barlyswyd ac a lethwyd gan ofid  
ac a lanwyd â phoen trallod,  
y mae eu nerth yn darfod  
a'u cyfeillion a'u cymdogion wedi pellhau.  
Gwyddost ti am ein holl ocheneidiau a dyheadau:  
bydd yn agos atom a dysg ni i obeithio ynot ti;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*I'w defnyddio ar ôl Salm 39:*

Arglwydd Iesu Grist, Fab y Duw byw,  
caniatâ inni dy geisio byth  
ac ymborthi arnat gydol ein dyddiau,  
canys yr wyt ti ym mhopeth  
gyda phopeth a thrwy bopeth,  
yn awr a hyd byth. **Amen.**

*I'w defnyddio ar ôl Salm 90:*

Dysg ni, Arglwydd, i gyfrif ein dyddiau;  
i weld rhychwant ein heinioes yng ngoleuni tragwyddoldeb.  
Datguddia inni dy ysblander.  
Dyro inni ddoethineb a gras i adnabod dy gariad  
ac i ymlawenhau yn dy faddeuant a'th fywyd;  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*I'w defnyddio ar ôl Salm 116:*

Arglwydd bywyd,  
yr ydym yn rhodio trwy dragwyddoldeb yn dy ŵydd.  
Arglwydd marwolaeth,  
yr ydym yn galw arnat mewn gofid a galar:  
ac yr wyt yn ein clywed ac yn ein hachub.  
Gwylia drosom wrth inni alaru am farw dy *was/wasanaethferch*,  
a oedd yn werthfawr yn dy olwg,  
a chadw ni'n ffyddlon i'n haddunedau i ti. **Amen.**

*For use after Psalm 32:*

Lord, our hiding place in times of trouble,  
you bring our guilt to mind.  
Your hand seems heavy;  
our tongues dry up  
and we openly confess our guilt.  
Embrace us with your mercy.  
Teach us to trust you,  
and bring us at the last  
to rejoice in your presence for ever and ever. **Amen.**

*For use after Psalm 38:*

Lord, have mercy  
on those who go about in mourning all the day long,  
who feel numb and crushed  
and are filled with the pain of grief,  
whose strength has given up  
and whose friends and neighbours are distant.  
You know all our sighings and longings:  
be near to us and teach us to fix our hope on you alone;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

*For use after Psalm 39:*

Lord Jesus Christ, Son of the living God,  
grant that we may ever seek you  
and feed on you all our days,  
for you are in all and with all and through all,  
now and for ever. **Amen.**

*For use after Psalm 90:*

Teach us, Lord, to number our days;  
to see the span of our life in the light of eternity.  
Reveal your splendour to us.  
Give us the wisdom and grace to know your love  
and to rejoice in your forgiveness and life;  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

*For use after Psalm 116:*

Lord of life,  
we walk through eternity in your presence.  
Lord of death,  
we call to you in grief and sorrow:  
you hear us and rescue us.  
Watch over us as we mourn the death of your servant,  
precious in your sight,  
and keep us faithful to our vows to you. **Amen.**

*I'w defnyddio ar ôl Salm 120:*

Dduw pob trugaredd,  
yr ydym mewn helbul ac yn galw arnat.  
Gwared ni rhag celwydd a thwyll  
a phoen ymosodiad y gelyn,  
a dyro inni dangnefedd,  
tangnefedd Crist a enillwyd ar y groes. **Amen.**

*I'w defnyddio ar ôl Salm 121:*

Arglwydd, ffyddlon,  
gwylia drosom a chadw ni'n ddiogel.  
Bydd gyda ni yn ein mynd a'n dod,  
yn awr a byth. **Amen.**

*I'w defnyddio ar ôl Salm 130:*

Arglwydd trugaredd ac iachawdwriaeth,  
achub ni, gweddiwn arnat, o ddyfnderoedd pechod a marwolaeth;  
maddau inni bob camwedd,  
a dyro inni ras i sefyll yn dy wŷydd  
i'th wasanaethu yn Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*I'w defnyddio ar ôl Salm 138:*

Arglwydd, na chefna arnom yn ein trallod.  
Cadw ni'n ddiogel ym mhob gofid,  
a chwblha dy bwrpas ar ein cyfer  
trwy dy gariad a'th ffyddlondeb diwyro  
yn Iesu Grist ein Hiachawdwr. **Amen.**

*I'w defnyddio ar ôl Salm 139:*

Arglwydd, yr wyt wedi ein creu a'n llunio,  
yr wyt wedi ein hadnabod a'n chwilio,  
yr wyt yn aros gyda ni trwy oleuni a thywyllwch:  
cynorthwya ni i adnabod dy bresenoldeb yn y bywyd hwn  
ac, yn y byd a ddaw, i fod eto gyda thi,  
lle'r wyt yn fyw ac yn teyrnasu  
yn Dduw byth bythoedd. **Amen.**

*For use after Psalm 120:*

God of mercy,  
we are in trouble and we call to you.  
Deliver us from lies and deceit  
and the pain of the enemy's attack.  
And give us peace, the peace of Christ won upon the cross. **Amen.**

*For use after Psalm 121:*

Faithful Lord,  
Watch over us and keep us safe.  
Be with us in our going out and in our coming in,  
now and for ever. **Amen.**

*For use after Psalm 130:*

Lord of mercy and redemption,  
rescue us, we pray, from the depths of sin and death;  
forgive us what we do wrong,  
and give us grace to stand in your presence,  
to serve you in Jesus Christ our Lord. **Amen.**

*For use after Psalm 138:*

Lord, do not abandon us in our desolation.  
Keep us safe in the midst of trouble,  
and complete your purpose for us  
through your steadfast love and faithfulness,  
in Jesus Christ our Saviour. **Amen.**

*For use after Psalm 139:*

Lord, you created and fashioned us,  
you know us and search us out,  
you abide with us through light and dark:  
help us to know your presence in this life  
and, in the life to come, still to be with you;  
where you are alive and reign,  
God, for ever and ever. **Amen.**

## XII. DARLLENIADAU O'R BEIBL A SALMAU I'W DEFNYDDIO MEWN GWASANAETHAU ANGLADD A GWASANAETHAU COFFA

### DARLLENIADAU O'R BEIBL

*Mae'r darlleniadau a nodwyd â \* yn arbennig o addas yn angladd plentyn.*

Pregethwr 3:1-8; Amser i bopeth

Eseia 25:6-9; 26:3, 4; Llyncir angau am byth

\*Eseia 61:1-3; Newydd da i'r toredig o galon

Galarnad 3:22-26, 31-33; Trugaredd diderfyn yr Arglwydd

Doethineb Solomon 3:1-9; Ni ddaw poenedigaeth byth i'w rhan

\*Mathew 5:1-12a; Y Gwynfydau

\*Mathew 11:25-30; Fe roddaf fi orffwystira i chwi

\*Mathew 18:1-5, 10; Y mwyaf yn Nheyrnas Nefoedd

\*Marc 10:13-16; Gadewch i'r plant ddod ataf fi

Marc 15:33-39; 16:1-7; Marwolaeth ac atgyfodiad Crist

Luc 24:13-16, (17-27), 28-35; Y ffordd i Emaus.

Ioan 5:24-29; 6:37-40; Gweld y Mab a chredu ynddo

Ioan 6:53-58; Caiff y sawl sy'n bwyta'r bara hwn fyw am byth

\*Ioan 10:11-16; Myfi yw'r bugail da

Ioan 11:21-27; Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd

Ioan 14:1-6, 18, 19; Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd

Ioan 20:1-9, (10-19); Y Crist atgyfodedig

Rhufeiniaid 8:31b-39; Ni all dim ein gwahanu oddi wrth gariad Duw yng Nghrist

Rhufeiniaid 14:7-9, (10-13, 16, 17); Arglwydd y meirw a'r byw

I Corinthiaid 15:3-20; Tystio i atgyfodiad Crist

I Corinthiaid 15:20-26, 35-38, (39-41), 42-58; O angau, ble mae dy fuddugoliaeth?

II Corinthiaid 4:16 - 5:9; Gogoniant digymar

Philipiaid 3:7-11, (12-21); Grym atgyfodiad Crist (Dinasyddion y nefoedd)

II Timotheus 2:8-13; Byddwn fyw gyda Christ

\*I Pedr 1:3-9; Gobaith bywiol

\*I Ioan 3:1, 2; Plant Duw

\*I Ioan 4:7-18a; Cariad yw Duw

Datguddiad 7:9-17; Bydd Duw yn sychu pob deigrin

Datguddiad 20:11-13; Llyfr y bywyd

\*Datguddiad 21:1-7; Y Jerwsalem newydd

### SALMAU

*Mae'r Salmau a nodwyd â \* yn arbennig o addas yn angladd plentyn.*

\* Salm 23

Salm 90:1-6, 10, 12-17

\*Salm 103:1-4, 13-18

\*Salm 121

Salm 139:1-12

*Gweler hefyd yr adran Gweddïau i'w defnyddio ar ôl y Salmau ar dudalen 73-75*



## **XII. BIBLE READINGS AND PSALMS FOR USE AT FUNERAL AND MEMORIAL SERVICES**

### **BIBLE READINGS**

*The readings marked with an asterisk \* are particularly appropriate at the funeral of a child.*

Ecclesiastes 3:1-8; A time for everything  
Isaiah 25:6-9; 26:3, 4; He will swallow up death for ever  
\*Isaiah 61:1-3; Good news for the broken hearted  
Lamentations 3:22-26, 31-33; The love of the Lord never ends  
Wisdom of Solomon 3:1-9; No torment will touch them  
\*Matthew 5:1-12a; The Beatitudes  
\*Matthew 11:25-30; I will give you rest  
\*Matthew 18:1-5, 10; The greatest in the Kingdom of Heaven  
\*Mark 10:13-16; Let the children come to me  
Mark 15:33-39; 16:1-7; Christ's death and resurrection  
Luke 24:13-16, (17-27), 28-35; The road to Emmaus  
John 5:24-29; 6:37-40; Seeing the Son and believing in him  
John 6:53-58; He who eats this bread will live for ever  
\*John 10:11-16; I am the good Shepherd  
John 11:21-27; I am the resurrection and the life  
John 14:1-6, 18, 19; I am the way, the truth and the life  
John 20:1-9, (10-19); The risen Christ  
Romans 8:31b-39; Nothing will separate us from God's love in Christ  
Romans 14:7-9, (10-13, 16, 17); The Lord of the dead and of the living  
I Corinthians 15:3-20; Witness to the risen Christ  
I Corinthians 15:20-26, 35-38, (39-41), 42-58; Death, where is your victory?  
II Corinthians 4:16 - 5:9; Incomparable glory  
Philippians 3:7-11, (12-21); The power of Christ's resurrection (Citizens of heaven)  
II Timothy 2:8-13; We shall live with Christ  
\*I Peter 1:3-9; A living hope  
\*I John 3:1, 2; God's children  
\*I John 4:7-18a; God is love  
Revelation 7:9-17; God will wipe away every tear  
Revelation 20:11-13; The book of life  
\*Revelation 21:1-7; The new Jerusalem

### **PSALMS**

*The psalms marked with an asterisk \* are particularly appropriate at the funeral of a child.*

\* Psalm 23  
Psalm 90:1-6, 10, 12-17  
\*Psalm 103:1-4, 13-18  
\*Psalm 121  
Psalm 139:1-12

*See also the section "Prayers for use after Psalms" on pages 73-75*

## XIII. CANTIGLAU I'W DEFNYDDIO MEWN GWASANAETHAU ANGLADD A GWASANAETHAU COFFA

### 1. CÂN AM Y GWAREDWR

Cyhoeddwch flwyddyn ffafr yr Arglwydd:  
a diddanwch bawb sy'n galaru.

- 1 Y mae ysbryd yr Arglwydd Dduw arnaf:  
oherwydd i'r Arglwydd fy eneinio
  - 2 I gysuro'r toredig o galon:  
ac i roi gollyngdod i'r carcharorion;
  - 3 I gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd:  
ac i ddiddanu pawb sy'n galaru,
  - 4 I roi iddynt olew llawenydd yn lle galar:  
mantell moliant yn lle digalondid.
  - 5 Gelwir hwy yn brennau cyfiawnder:  
wedi eu plannu gan yr Arglwydd i'w ogoniant.
  - 6 Felly y gwna'r Arglwydd Dduw i gyfiawnder a moliant:  
darddu gerbron yr holl genhedloedd.
  - 7 Ailadeiladant hen adfeilion:  
atgyweiriant ddinasoedd diffaith.
  - 8 Fe'u gelwir hwy yn Waredigion yr Arglwydd:  
ac fe'th elwir di yn Ddinas nas gwrthodwyd.
- Eseia 61:1-3, 11b, 4; 62:12*

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân:  
megis yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

### 2. CÂN MANASSE

Llawn tosturi a thrugaredd a chariad:  
yw'r Duw goruchaf a hollalluog.

- 1 Arglwydd hollalluog, Duw ein tadau ni:  
ti a wnaeth nef a daear a holl ysblander eu trefn.
- 2 Y mae pob peth yn crynu ac yn dychrynu:  
gerbron dy allu di.
- 3 Difedur a diamgyffred yw'r drugaredd a addewaist:  
canys ti yw'r Arglwydd goruchaf.
- 4 Yr wyt yn dosturiol a hirymarhous a mawr dy drugaredd:  
yn ymatal rhag cosbi drygioni dynion.
- 5 Arglwydd Dduw y cyfiawn:  
ordeiniaist edifeirwch i mi, sy'n bechadur.
- 6 Oherwydd lluosocach na thywod y môr:  
yw nifer fy mhechodau i.
- 7 Amlhaodd fy nhroseddau, fel nad wyf deilwng:  
i edrych i fyny a syllu ar uchder y nefoedd.

### XIII. CANTICLES FOR USE AT FUNERAL AND MEMORIAL SERVICES

#### 1. A SONG OF THE REDEEMER

Proclaim the time of the Lord's favour,  
and comfort all who grieve.

- 1 The Spirit of the Lord is upon me, \*  
because he has anointed me.
- 2 He has sent me to bind up the broken-hearted, \*  
to announce release from darkness for the prisoners.
- 3 To proclaim the time of the Lord's favour, \*  
and to comfort all who grieve.
- 4 To give them oil of gladness instead of mourners' tears, \*  
a garment of splendour for the heavy heart.
- 5 They will be called trees of righteousness, \*  
planted by the Lord for his praise.
- 6 For God shall make his righteousness and praise \*  
blossom before all the nations.
- 7 Buildings long in ruins will be rebuilt \*  
and the desolate cities restored.
- 8 And you shall be called the Redeemed of the Lord, \*  
a city no longer forsaken.

*Isaiah 61:1-3, 11b, 4; 62. 12*

**Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit; \*  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

#### 2. THE SONG OF MANASSEH

Full of compassion and mercy and love  
is God, the most high, the almighty.

- 1 O Lord God almighty and God of our forebears, \*  
you who made heaven and earth in all their glory:
- 2 All things tremble with awe at your presence, \*  
before your great and mighty power.
- 3 Immeasurable and unsearchable is your promise of mercy, \*  
for you are God, Most High.
- 4 You are full of compassion and very merciful, \*  
and you relent at human suffering.
- 5 O God, according to your great goodness, \*  
you have promised repentance and forgiveness  
to those who have sinned against you.
- 6 The sins I have committed against you \*  
are more in number than the sands of the sea.
- 7 I am not worthy to look up and see the heavens, \*  
because of my many sins and iniquities.

8 Ac yn awr rwy'n darostwng fy nghalon:  
gan ddeisyf dy ffyddlondeb.

9 Pechadur wyf, O Arglwydd, pechadur:  
ac yr wyf yn cydnabod fy nhroseddau.

10 Er mor annheilwng wyf:  
fe'm hachubi yn ôl dy drugaredd fawr.

11 Oherwydd y mae holl lu'r nefoedd yn dy foliannu di:  
ac eiddot ti yw'r gogoniant am byth.

*Manasse 1a,2,4,6,7,8a,8ch,9,10a,10c,11,12,14b,15b*

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân:  
megis yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

### 3.JUSTORUM ANIMAE

Cafodd Duw yr uniawn yn deilwng:  
a digoll yw eu gobaith am anfarwoldeb.

1 Y mae eneidiau'r cyfiawn yn llaw Duw:  
ac ni ddaw poenedigaeth byth i'w rhan.

2 Yn llygaid y rhai ynyfyd, y maent fel pe baent wedi marw:  
ond y maent mewn hedd.

3 Oherwydd er i gosb ddod arnynt yng ngolwg dynion:  
digoll yw eu gobaith am anfarwoldeb;

4 Ac er eu disgyblu ychydig, mawr fydd eu hennill:  
am fod Duw wedi eu profi  
a'u cael yn deilwng ohono ef ei hun.

5 Fel aur mewn tawddlestr y profodd hwy:  
ac fel poethoffrwm yr aberth y derbyniodd hwy.

6 Pan ddaw Duw i ymweld â hwy cyneuant yn wenfflam:  
fel gwreichion mewn sofr fe redant drwy'r byd.

7 Cânt lywodraethu ar genhedloedd a rheoli ar bobloedd:  
a'r Arglwydd fydd eu brenin am byth.

8 Bydd y rhai sy'n ymddiried ynddo ef yn deall y gwir:  
a'r ffyddloniaid yn gweini arno mewn cariad,

9 Oherwydd gras a thrugaredd:  
yw rhan ei etholedigion.

*Doethineb Solomon 3.1,2a,3b-9*

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân:  
megis yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

- 8 And now my heart bows before you, \*  
imploring your kindness upon me.
- 9 I have sinned, O God, I have sinned, \*  
and I acknowledge my transgressions.
- 10 Unworthy as I am, I know that you will save me, \*  
according to your great mercy.
- 11 For all the host of heaven sings your praise, \*  
and your glory is for ever and ever.
- Manasseh 1a,2,4,6,7,9a,9c,11,12,14b,15b

**Glory to the Father, and to the Son  
and to the Holy Spirit;\***  
**as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

### 3.JUSTORUM ANIMAE

God has found the righteous worthy  
and their hope is full of immortality.

- 1 The souls of the righteous are in the hand of God \*  
and no torment will ever touch them.
- 2 In the eyes of the foolish, they seem to have died \*  
but they are at peace.
- 3 For though, in the sight of others, they were punished, \*  
their hope is full of immortality.
- 4 Having been disciplined a little, they will receive great good, \*  
because God tested them and found them worthy.
- 5 Like gold in a furnace, God tried them \*  
and, like a sacrificial burnt offering, accepted them.
- 6 In the time of their visitation, they will shine forth \*  
and will run like sparks through the stubble.
- 7 They will govern nations and rule over peoples \*  
and God will reign over them for ever.
- 8 Those who have put their trust in them will understand  
that he is true, \*  
and the faithful will attend upon him in love;
- 9 They are his chosen, \*  
and grace and mercy will be theirs.
- Wisdom 3.1,2a,3b-9*

**Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit.\***  
**as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

#### 4. NUNC DIMITTIS

Pan fyddom yn effro, boed inni wyllo gyda Christ:  
pan fyddom ynghwsg, boed inni orffwys mewn tangnefedd.

- 1 Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd, O Arglwydd:  
mewn tangnefedd yn unol â'th air;
- 2 Oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth:  
a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd:
- 3 Goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd  
ac yn ogoniant i'th bobl Israel.

*Luc 2.29-32*

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân:  
megis yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

#### 5. CÂN Y RHAI A GYFIAWNHAWYD

Oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd:  
y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

- 1 Y mae cyfiawnder i'w gyfrif i ni, sydd â ffydd gennym:  
yn yr hwn a gyfododd Iesu ein Harglwydd oddi wrth y meirw.
- 2 Cafodd ef ei draddodi i farwolaeth am ein camweddau:  
a'i gyfodi i'n cyfiawnhau ni.
- 3 Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd:  
y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist.
- 4 Trwyddo ef, yn wir, cawsom ffordd, trwy ffydd:  
i ddod i'r gras hwn yr ydym yn sefyll ynddo.
- 5 Yr ydym hefyd yn gorfoleddu yn y gobaith:  
y cawn gyfranogi yng ngogoniant Duw.
- 6 Yr ydym hyd yn oed yn gorfoleddu yn ein gorthrymderau:  
oherwydd fe wyddom mai o orthrymder y daw'r gallu i ymddâl,
- 7 Ac o'r gallu i ymddâl y daw rhuddin cymeriad:  
ac o gymeriad y daw gobaith.
- 8 A dyma obaith na chawn ein siomi ganddo:  
oherwydd y mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau  
trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni.
- 8 Ond prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni:  
yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid.
- 9 A ninnau yn awr wedi ein cyfiawnhau trwy ei waed ef:  
y mae'n sicrach fyth y cawn ein hachub trwyddo ef rhag y digofaint.
- 10 Ond heblaw hynny, yr ydym hefyd yn gorfoleddu yn Nuw  
trwy ein Harglwydd Iesu Grist:  
trwyddo ef yr ydym yn awr wedi derbyn y cymod.

*Rhufeiniaid 4.24,25; 5.1-5,8,9,11*

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân:  
megis yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

#### 4. NUNC DIMITTIS

Awake may we watch with Christ:  
asleep may we rest in peace.

- 1 Lord, now you have set your servant free \*  
to go in peace as you have promised.
  - 2 For these eyes of mine have seen your salvation \*  
which you have prepared for all the world to see;
  - 3 A light to reveal you to the nations \*  
and to give glory to your people Israel.
- Luke 2.29-32*

**Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit.\*  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

#### 5. A SONG OF THE JUSTIFIED

We are justified by faith,  
we have peace with god through our lord Jesus Christ.

- 1 God reckons as righteous those who believe, \*  
who believe in him who raised Jesus from the dead.
  - 2 For Christ was handed over to death for our sins,\*  
and raised to life for our justification.
  - 3 Since we are justified by faith, \*  
we have peace with God through our Lord Jesus Christ.
  - 4 Through Christ we have gained access  
to the grace in which we stand, \*  
and rejoice in our hope of the glory of God.
  - 5 We even exult in our sufferings, \*  
for suffering produces endurance,
  - 6 And endurance brings hope,\*  
and our hope is not in vain.
  - 7 Because God's love has been poured into our hearts, \*  
through the Holy Spirit, given to us.
  - 8 God proves his love for us:\*  
while we were yet sinners Christ died for us.
  - 9 Since we have been justified by his death, \*  
how much more shall we be saved from God's wrath.
  - 10 Therefore, we exult in God through our Lord Jesus Christ,\*  
in whom we have now received our reconciliation.
- Romans 4.24,25;5. 1-5,8,9,11.*

**Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit.\*  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

## 6. CÂN PLANT DUW

Y mae Ysbryd y Tad,  
a gyfododd Grist Iesu oddi wrth y meirw:  
yn rhoddi bywyd i bobl Dduw.

- 1 Yng Nghrist Iesu y mae cyfraith yr Ysbryd, sy'n rhoi bywyd:  
wedi ein rhyddhau o afael cyfraith pechod a marwolaeth.
  - 2 Y mae pawb sy'n cael eu harwain gan Ysbryd Duw yn blant Duw:  
oherwydd inni dderbyn yr Ysbryd  
yr ydym trwyddo yn llefain, "Abba! Dad!"
  - 3 Y mae'r Ysbryd ei hun yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni:  
ein bod yn blant i Dduw.
  - 4 Ac os plant, etifeddion hefyd, etifeddion Duw a chyetifeddion â Christ:  
os yn wir yr ydym yn cyfranogi o'i ddiodeffaint ef  
er mwyn cyfranogi o'i ogoniant hefyd.
  - 5 Nid yw dioddefiadau'r presennol:  
i'w cymharu â'r gogoniant sydd ar gael ei ddatguddio i ni.
  - 6 Yn wir, y mae'r greadigaeth yn disgwyl yn daer:  
am i blant Duw gael eu datguddio.
- Rhufeiniaid 8.2, 14, 15b-19*

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân:  
megis yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

## 7. CÂN O FFYDD

Cyfododd Duw oddi wrth y meirw Grist:  
yr Oen di-fai a di-nam.

- 1 Bendigedig fyddo Duw a Thad:  
ein Harglwydd Iesu Grist!
- 2 O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein geni ni o'r newydd i obaith bywiol:  
trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw,
- 3 I etifeddiaeth na ellir na'i difrodi, na'i difwyno, na'i difa:  
Saif hon ynghadw yn y nefoedd i chwi,
- 4 Chwi sydd trwy ffydd dan warchod gallu Duw  
hyd nes y daw iachawdwriaeth:  
yr iachawdwriaeth sydd yn barod i'w datguddio yn yr amser diwethaf.
- 5 Nid â phethau llygradwy, arian neu aur, y prynwyd ichwi ryddid:  
oddi wrth yr ymarweddiad ofer a etifeddwyd gennych,
- 6 Ond â gwaed gwerthfawr:  
Un oedd fel oen di-fai a di-nam, sef Crist.
- 7 Trwyddo ef yr ydych yn credu yn Nuw:  
yr hwn a'i cyfododd ef oddi wrth y meirw ac a roes iddo ogoniant,  
fel y byddai eich ffydd a'ch gobaith chwi yn Nuw.

*I Pedr 1.3-5, 18, 19, 21*

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân:  
megis yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**



## 6. A SONG OF GOD'S CHILDREN

The spirit of the father,  
who raises Christ Jesus from the dead,  
gives life to the people of God.

- 1 The law of the Spirit of life in Christ Jesus \*  
has set us free from the law of sin and death.
- 2 All who are led by the Spirit of God are children of God;\*  
for we have received the Spirit  
that enables us to cry, 'Abba, Father'.
- 3 The Spirit himself bears witness that we are children of God \*  
and if God's children, then heirs of God;
- 4 If heirs of God, then fellow-heirs with Christ;\*  
since we suffer with him now,  
that we may be glorified with him.
- 5 These sufferings that we now endure \*  
are not worth comparing to the glory that shall be revealed.
- 6 For the creation waits with eager longing \*  
for the revealing of the children of God.

*Romans 8.2,14,15b-19*

**Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit.\*  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

## 7. A SONG OF FAITH

God raised Christ from the dead,  
the lamb without spot or stain.

- 1 Blessed be the God and Father \*  
of our Lord Jesus Christ !
- 2 By his great mercy we have been born anew to a living hope,\*  
through the resurrection of Jesus Christ from the dead.
- 3 Into an inheritance that is imperishable,  
undefiled and unfading,\*  
kept in heaven for you.
- 4 Who are being protected by the power of God  
through faith for a salvation, \*  
ready to be revealed in the last time.
- 5 You were ransomed from the futile ways of your ancestors \*  
not with perishable things like silver or gold
- 6 But with the precious blood of Christ \*  
like that of a lamb without spot or stain.
- 7 Through him you have confidence in God,  
who raised him from the dead and gave him glory, \*  
so that your faith and hope are set on God.

*1 Peter 1.3-5,18,19,21*

**Glory to the Father, and to the Son,  
and to the Holy Spirit.\*  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

## 8. CÂN Y RHAI A BRYNWDYD

I'n Duw ni y perthyn y waredigaeth:  
fe'n tywys at ffynhonnau'r dyfroedd byw.

1 Wele dyrfa fawr:

na allai neb ei rhifo,

2 O bob cenedl a'r holl lwythau a phobloedd ac ieithoedd:

yn sefyll o flaen yr orsedd ac o flaen yr Oen,

3 Wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, a phalmwydd yn eu dwylo:

Yr oeddent yn gweiddi â llais uchel,

4 "I'n Duw ni, sy'n eistedd ar yr orsedd, ac i'r Oen:

y perthyn y waredigaeth!"

5 Dyma'r rhai sy'n dod allan o'r gorthrymder mawr:

y maent wedi golchi eu mentyll a'u cannu yng ngwaed yr Oen.

6 Am hynny, y maent o flaen gorsedd Duw:

ac yn ei wasanaethu ddydd a nos yn ei deml,

7 A bydd yr hwn sy'n eistedd ar yr orsedd:

yn lloches iddynt.

8 Ni newynant mwy ac ni sychedant mwy:

ni ddaw ar eu gwarthaf na'r haul na dim gwres,

9 Oherwydd bydd yr Oen sydd yng nghanol yr orsedd:

yn eu bugeilio hwy,

10 Ac yn eu harwain i ffynhonnau dyfroedd bywyd:

a bydd Duw yn sychu pob deigr yn o'u llygaid hwy.

*Datguddiad 7.9, 10, 14b-17*

**I'r hwn sy'n eistedd ar yr orsedd ac i'r Oen:  
y bo'r mawl a'r anrhydedd a'r gogoniant a'r nerth  
byth bythoedd! Amen**

## 9. CÂN AM YR OEN

Llawenhawn a gorfoleddwn:

a rhoddwn ogoniant a gwrogaeth i'n Duw.

1 Eiddo ein Duw ni y waredigaeth a'r gogoniant a'r gallu:

oherwydd gwir a chyfiawn yw ei farnedigaethau ef,

2 Molwch ein Duw ni, chwi ei holl weision ef:

a'r rhai sy'n ei ofni ef, yn fach a mawr.

3 Y mae'r Arglwydd ein Duw, yr Hollalluog, wedi dechrau teyrnasu:

Llawenhawn a gorfoleddwn, a rhown iddo'r gogoniant,

4 Oherwydd daeth dydd priodas yr Oen:

ac ymbaratodd ei briodferch ef.

5 Gwyn eu byd y rhai sydd wedi eu gwahodd:

i wledd briodas yr Oen.

*Datguddiad 19.1b, 2b, 5b, 6b, 7, 9b*

**I'r hwn sy'n eistedd ar yr orsedd ac i'r Oen:  
y bo'r mawl a'r anrhydedd a'r gogoniant a'r nerth  
byth bythoedd! Amen**

## 8. A SONG OF THE REDEEMED

Salvation belongs to our God,  
who will guide us to springs of living water.

- 1 Behold, a great multitude \*  
which no one could number.
  - 2 From every nation, from all tribes and peoples and tongues,\*  
standing before the throne and the Lamb.
  - 3 They were clothed in white robes  
and had palms in their hands, \*  
and they cried with a loud voice, saying,
  - 4 'Salvation belongs to our God who sits on the throne, \*  
and to the Lamb.'
  - 5 These are they who have come out of the great tribulation,\*  
they have washed their robes  
and made them white in the blood of the Lamb ;
  - 6 Therefore they stand before the throne of God, \*  
whom they serve day and night within the temple.
  - 7 And the One who sits upon the throne \*  
will shelter them with his presence.
  - 8 They shall never again feel hunger or thirst, \*  
the sun shall not strike them, nor any scorching heat.
  - 9 For the Lamb at the heart of the throne \*  
will be their Shepherd,
  10. He will guide them to springs of living water,  
and God will wipe away every tear from their eyes.
- Revelation 7.9,10,14b-17*

**To the one who sits on the throne and to the lamb  
be blessing and honour and glory and might,\*  
for ever and ever. Amen.**

## 9. A SONG OF THE LAMB

Let us rejoice and exult  
and give glory and homage to our God.

- 1 Salvation and glory and power belong to our God,\*  
whose judgements are true and just.
  - 2 Praise our God, all you his servants, \*  
all who fear him, both small and great.
  - 3 The Lord our God, the Almighty, reigns:\*  
let us rejoice and exult and give him the glory.
  - 4 For the marriage of the Lamb has come \*  
and his bride has made herself ready.
  - 5 Blessed are those who are invited \*  
to the wedding banquet of the Lamb.
- Revelation 19.1b,2b,5b,6b,7,9b*

**To the one who sits on the throne and to the lamb  
be blessing and honour and glory and might, \*  
for ever and ever. Amen.**

## 10. CAN O'R EIDDO ANSELM SANT

Casgla dy blant ynghyd, O Dduw:  
fel y casgl iâr ei chywion i'w hamddiffyn.

- 1 O Iesu, cesgli fel mam dy bobl atat:  
yr wyt yn dyner â ni, fel mam gyda'i phlant.
- 2 Wylï yn aml dros ein pechodau a'n balchder:  
tynni ni'n dyner oddi wrth atgasedd a barn.
- 3 Diddeni ni mewn galar a rhwymo ein clwyfau:  
gofeli amdanom mewn afiechyd a'n porthi â llaeth pur.
- 4 O Iesu, trwy dy farw fe'n genir ni i fywyd newydd:  
trwy dy boen a'th ddioddefaint fe ddeuwn i lawenydd.
- 5 Try anobaith yn obaith trwy dy ddaioni mwyn:  
trwy dy dynerwch fe gawn ddiddanwch mewn ofn.
- 6 Dyry dy gynhesrwydd fywyd i'r meirw:  
gwna dy gyffyrddiad bechaduriaid yn uniawn.
- 7 O Arglwydd Iesu, yn dy drugaredd iachâ ni:  
yn dy gariad a'th dynerwch ail-grea ni.
- 8 Yn dy dosturi dyro ras a maddeuant:  
paratoed dy gariad ni at brydferthwch y nef.

*Anselm o Gaer-gaint*

**Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab ac i'r Ysbryd Glân:  
megis yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,  
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

## 10. A SONG OF ST. ANSELM

Gather your little ones to you, O God,  
as a hen gathers her brood to protect them.

- 1 Jesus, like a mother you gather your people to you;\*  
you are gentle with us as a mother with her children.
  - 2 Often you weep over our sins and our pride, \*  
tenderly you draw us from hatred and judgement.
  - 3 You comfort us in sorrow and bind up our wounds, \*  
in sickness you nurse us, and with pure milk you feed us.
  - 4 Jesus, by your dying we are born to new life;\*  
by your anguish and labour we come forth in joy.
  - 5 Despair turns to hope through your sweet goodness;\*  
through your gentleness we find comfort in fear.
  - 6 Your warmth gives life to the dead, \*  
your touch makes sinners righteous.
  - 7 Lord Jesus, in your mercy heal us;\*  
in your love and tenderness remake us.
  - 8 In your compassion bring grace and forgiveness,\*  
for the beauty of heaven may your love prepare us.
- from Anselm of Canterbury.*

**Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit.\*  
as it was in the beginning, is now,  
and shall be for ever. Amen.**

## XIV. DETHOLIAD O EMYNAU AC ANTHEMAU I'W DEFNYDDIO MEWN GWASANAETHAU ANGLADD A GWASANAETHAU COFFA.

### EMYNAU

*Mae'r emynau a nodwyd â \* yn arbennig o addas yn angladd plentyn.*

*Fersiynau mydryddol o'r salmau yw'r emynau a nodwyd â + a gellir eu defnyddio yn lle'r salmau a ddarparwyd.*

- 1 Am fod fy Iesu'n fyw (John Thomas)
- 2 Am rif y saint y sydd o'u gwaeau'n rhydd (W.Walsham How, cyf. T. Gwynn Jones)
- 3 Arglwydd gad im dawel orffwys (Emrys)
- 4 Arglwydd Iesu, arwain f'enaid (Morswyn)
- 5 Arglwydd pob gobaith, ac Arglwydd pob hoen (Jan Struther, cyf. D.Eirwyn Morgan)
- 6 Braint, braint yw cael cymdeithas (John Roberts ac eraill)
- \*7 Bydd canu yn y nefoedd (Pedr Hir)
- 8 Canaf am yr addewidion (Walcyn Wyn)
- 9 Craig yr oesoedd, cuddia fi (A.M.Toplady, cyf. Alafon)
- \*10 Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd (E.L.Budry, R.B.Hoyle, cyf. O.M.Lloyd)
- 11 Chwi bererinion glân (William Williams)
- \*12 Daeth Iesu o'i gariad (Walcyn Wyn)
- 13 Dal fi'n agos at yr Iesu (E.Herber Evans)
- 14 Dechrau canu, dechrau canmol (William Williams)
- \*15 Deuwch gyda mi draw i dŷ fy Nhad (Anad., cyf. Harri Williams)
- 16 Diolchwn oll i Dduw (M.Rinkart, cyf. J.Henry Jones)
- 17 Draw, draw ymhell mae gwyrddlas fryn (C.F.Alexander, cyf. Elfed)
- \*18 Duw fo yn fy mhen (Horae BVM Sarum, cyf. R Glyndwr Williams)
- +19 Duw yw ein noddfa ni a'n nerth (Salm 46, Gwynn ap Gwilym)
- 20 Er gwaetha'r maen a'r gwylwyr (Morgan Rhys)
- \*+ 21 F'enaid, mola Dduw'r gogoniant (H.F.Lyte, cyf. G.Wynne Griffith)
- 22 Fe roed imi ddymuniadau (William Williams)
- 23 Gobaith mawr y mae'r addewid (John Jones)
- 24 Gwawr wedi hirnos, cân wedi loes (J.D.Vernon Lewis)
- 25 Iesu, cyfaill f'enaid i (C.Wesley, cyf. D.Tecwyn Evans)
- 26 Mae Eglwys Dduw fel dinas wych (Benjamin Francis)
- 27 Mae ehangder yn ei dostur (F.W.Faber, cyf.)
- 28 Mae ffrydiau 'ngorfoledd yn tarddu (David Charles)
- 29 Mi dafla' maich oddi ar fy ngwar (William Williams)
- 30 Mi godaf f'egwan lef (Ben Davies)
- 31 Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw (Thomas Jones)
- 32 Mor beraidd i'r credadun gwan (J.Newton, cyf. David Charles)
- 33 Myfi yw'r atgyfodiad mawr (Ellis Wynne)
- 34 N'ad i'r gwyntoedd cryf dychrynlyd (William Williams)
- 35 Na foed cydweithwyr Duw (Elfed)
- 36 Ni allodd angau du (Gwilym ab Elis)
- 37 O am nerth i dreulio 'nyddiau (William Williams)
- 38 O aros gyda mi, y mae'n hwyrhau (H.F.Lyte, cyf. Lewis Edwards)
- 39 O ddedwydd awr tragwyddol orffwys (Ann Griffiths)
- 40 O fy Iesu bendigedig (Eben Fardd)
- 41 O gariad na'm gollyngi i (G. Matheson, cyf. D.Tecwyn Evans)
- 42 O gorfoleddwn oll yn awr (W.Rhys Nicholas)

## XIV. A SELECTION OF SUGGESTED HYMNS AND ANTHEMS FOR USE AT FUNERAL AND MEMORIAL SERVICES

### HYMNS

*Hymns marked with an asterisk \* are particularly appropriate at the funeral of a child.*

*Hymns marked with a cross + are metrical versions of psalms, and may be used in place of the psalms provided.*

1. Abide with me; fast falls the eventide (H.F.Lyte).
2. Alleluia, Sing to Jesus (W.Chatterton Dix).
- \*+3. Be still and know that I am God (cf.Psalm 46).
4. Brief life is here our portion (Bernard of Cluny, Tr.J.M.Neale).
5. Christ, enthroned in highest heaven (Tr.R.F.Littledale).
6. Faithful vigil ended (T.Dudley-Smith).
- \*7. For all the saints who from their labours rest (W.Walsham How).
- \*8. God be in my head (Horae BVM Sarum).
9. Guide me, O thou great Jehovah/Redeemer (W.Williams).
10. He wants not friends that hath thy love (R.Baxter).
- \*11. How sweet the name of Jesus sounds (J.Newton).
12. I know that my Redeemer lives (S.Medley).
13. Immortal love, for ever full (J.G.Whittier).
14. In heavenly love abiding (A.L.Waring).
15. Jerusalem the golden (Bernard of Cluny, Tr.J.M.Neale).
16. Jesu, lover of my soul (C.Wesley).
17. Jesu, Son of Mary (Tr.E.S.Palmer).
18. Jesus lives, thy terrors now (C.F.Gellert, Tr.F.E.Cox etc.).
- \*19. Jesus, remember me (Taize).
20. Jesus, stand among us in thy risen power (W.Pennefather).
21. Joy and triumph everlasting (Adam of St.Victor, Tr.R.Bridges).
22. Lead us, heavenly Father, lead us (J.Edmeston).
23. Let saints on earth in concert sing (C.Wesley).
24. Lord, it belongs not to my care (R.Baxter).
- \*25. Lord of all hopefulness, Lord of all joy (Jan Struther).
- \*26. Love divine, all loves excelling (C.Wesley).
27. Love's redeeming work is done (C.Wesley).
28. Now is eternal life (G.W.Briggs).
29. Now thank we all our God (M.Rinkart, Tr.C.Winkworth).
- +30. O God, our help in ages past (I.Watts).
31. O Lamb of God, most holy (M.Forster).
32. O Lord my God, when I in awesome wonder (S.Hine).
33. O love that wilt not let me go (G.Matheson).
34. Peace, perfect peace, in this dark world of sin? (E.H.Bickersteth).
- \*+35. Praise, my soul, the king of heaven (H.F.Lyte).
36. Rock of ages, cleft for me (A.M.Toplady).
37. The day thou gavest, Lord, is ended (J.Ellerton).
- \*+38. The King of love my shepherd is (H.W.Baker).
- \*+39. The Lord's my shepherd, I'll not want (W.Whittingham).
40. The strife is o'er, the battle done (Tr.F.Pott).
- \*41. There is a green hill far away (C.F.Alexander).
42. There is a land of pure delight (I.Watts).

- 43 O Iesu y ffordd ddigyfnewid (W.Rhys Nicholas)
- 44 Os gwelir fi, bechadur (amryw awduron)
- 45 Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr (John Roberts)
- 46 Pererin wyf mewn anial dir (William Williams)
- 47 Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn (Moelwyn)
- 48 Rho im yr hedd na wyr y byd amdano (Elfed)
- 49 Tydi sy deilwng oll o'm cân (David Charles)
- 50 Wel, f'enaid dos ymlaen (William Williams)
- 51 Y dydd a roddaist, lôr, a giliodd (J.Ellerton, cyf. R.D.Roberts)
- 52 Ynghanol nos, oleuni mwyn y nef, (J.H.Newman, cyf. E.Keri Evans)
- 53 Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau (Dafydd William)
- \*+54 Yr Arglwydd yw fy mugail i (Salm 23, Gwynn ap Gwilym)
- 55 Yr Iesu atgyfododd (Thomas Levi)

### Anthemau

- 1 J.S.Bach, O Dduw gwirionedd glân
- 2 W.Billings, Y cyfiawn a drig yn y nef
- 3 W.B.Bradbury, Pan lesmeirio fy nghalon
- 4 E.T.Davies, Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd?
- 5 David Evans, Gwyn eu byd y meirw
- 6 D.Emlyn Evans, Eisteddai teithiwr blin
- 7 T.Hopkin Evans, Dyrchafaf fy llygaid
- 8 T.Hopkin Evans, Gair ein Duw
- 9 John Goss, O Brynwr mawr y byd
- 10 Vera Henry, Graslon a thrugarog
- 11 David Jenkins, Na thralloder eich calon
- 12 M.O.Jones, Fe welir Seion fel y wawr
- 13 Wilfrid Jones, Duw sydd berffaith ei ffordd
- 14 James Kent, Eiddot ti, O Dduw, yw y mawredd
- 15 D.W. Lewis, Dysg i mi dy lwybrau
- 16 John Lloyd, Deuwch ataf fi
- 17 J.Morgan Lloyd, Cofia yn awr dy greawdwr
- 18 Lowell Mason, Fel y brefa yr hydd
- 19 W.A.Mozart, Ave, verum corpus
- 20 W.A.Mozart, O fy Arglwydd, O fy Mhrynwr
- 21 Joseph Parry, Duw, bydd drugarog
- 22 Joseph Parry, Pebyll yr Arglwydd
- 23 D.E.Parry-Williams, Yr Arglwydd yw fy nghraig
- 24 Tom Price, Am fod fy Iesu'n fyw
- 25 Caradog Roberts, Yr Arglwydd yw fy mugail
- 26 J.H.Roberts, Pwy yw y rhai hyn?
- 27 D. Christmas Williams, Dyn a aned o Wraig
- 28 Olive V.Williams, Duw sydd noddfa
- 29 W.Matthews Williams, Bwrw dy faich



43. There's a wideness in God's mercy (F.W.Faber).
44. They whose course on earth is o'er (J.M.Neale).
- \*45. Thine be the glory, risen, conquering son (E.L.Budry, Tr.R.B.Hoyle).
46. Welcome happy morning, age to age shall say (Venantius Fortunatus, Tr.J.Ellerton).
47. What sweet of life endureth (S.John of Damascus, Tr.A.Riley).
48. Within our darkest night (Taize).

#### Anthems

1. P.Aston, So they gave their bodies.
2. J.S.Bach, Come, sweetest death.
3. J.S.Bach, Jesu, hope of men despairing.
4. M.Besly, O Lord, support us.
5. E.Bullock, Give us the wings of faith.
6. T.Campion, Never weather beaten sail.
7. W.Davies, God be in my head.
8. J.Eccard, When to the Temple Mary went.
9. G.Faure, Pie Iesu.
10. H.Goodall, The Lord is my shepherd.
11. J.Goss, God so loved the world.
12. J.Goss, If we believe that Jesus died and rose again.
13. D.Guest, They shall grow not old.
14. W.H.Harris, Bring us, O Lord, at our last awakening.
15. W.H.Harris, Holy is the true light.
16. P.Irving, They shall grow not old.
17. Kiev Melody, Give rest, O Christ, to thy servant.
18. R.H.Lloyd, View me, Lord.
19. S.Marchant, The souls of the righteous.
20. W.A.Mozart, Ave, verum corpus.
21. H.Oxley, My shepherd is Lord.
22. C.H.H.Parry, My soul, there is a country.
23. C.H.H.Parry, Never weather beaten sail.
24. C.H.H.Parry, Sunset and evening star.
25. H.Purcell, Thou knowest, Lord, the secrets of our hearts.
26. K.Robson, Lord, give me faith.
27. J.Rutter, God, be in my head.
28. R.Shephard, Never weather beaten sail.
29. J.Stainer, God so loved the world.
30. T.Tallis, O Nata Lux.
31. J.Tavener, Funeral Ikos.
32. J.Tavener, Song for Athene.
33. S.S.Wesley, Thou judge of quick and dead.
34. R.V.Williams, Let us now praise famous men.
35. C.Wood, Christ who doth all his sheep.



Printed for the Church in Wales by Church in Wales Publications  
Argraffwyd ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru gan Wasg yr Eglwys yng Nghymru  
© The Church in Wales 2008/Yr Eglwys yng Nghymru 2008

